



Cyngor Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

Mae'r adroddiad yma ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.

I wneud cais, ffoniwch 01443 444529 neu e-bostio

cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Cynnwys

Tudalen

| | |
|---------------------------------------------------------|----|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Pwy ydyn ni..... | 4 |
| 3. Adrodd am Gydraddoldeb | 4 |
| 4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol..... | 5 |
| 5. Cyflawni'r Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | 6 |
| 6. Amcanion Cydraddoldeb | 27 |
| 7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb..... | 66 |
| 8. Data Monitro Cyflogaeth | 67 |
| 9. Caffael..... | 68 |
| 10. Gwybodaeth Hygyrch..... | 68 |
| 11. Gwaith Pellach..... | 69 |
| 12. Manylion Cyswllt..... | 69 |
| ATODIAD 1 | 70 |
| Data Monitro Cyflogaeth..... | 70 |

1. Cyflwyniad

Mae'n bleser i mi gyflwyno Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi dulliau gweithredu'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am ei waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn unol â'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru, mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd bob blwyddyn ar sut mae wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddogfen yma'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol er mwyn i'r Cyngor fodloni'r dyletswyddau yma.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth am yr holl ofynion mewn un adroddiad, yn ei gwneud hi'n haws i'r grwpiau sydd â diddordeb, weld sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, ei oblygiadau cyfreithiol, a'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae pob rhan o'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor. Mae'r adran olaf yn cynnwys manylion y gwaith y mae angen i'r Cyngor ei wneud yn y dyfodol.

Unwaith eto, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi parhau i wneud ein Bwrdeistref Sirol yn lle mwy cyfartal i fyw, gweithio a defnyddio gwasanaethau ynddi. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod meysydd i'w gwella, a bydd meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Bydd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yma nid yn unig yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau yn unol â'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru, ond bydd hefyd yn eich helpu chi, a chithau'n drigolion y sir, i nodi'r meysydd yma ac i fonitro'u cynnydd.

Y Cynghorydd Maureen Webber

Dirprwy Arweinydd / Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor

2. Pwy ydyn ni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol fawr, gyda phoblogaeth o dros 241,873 o bobl (data poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Cyngor Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod lleol mwyaf ond dau yng Nghymru ac mae'n cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yn yr ardal leol. Mae dros 80% o'i weithwyr hefyd yn byw o fewn ffiniau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod hyn i'w weld yn narpariaeth ein gwasanaethau a'n harferion cyflogaeth.

Adolygodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol yn 2020. Dyma flaenoriaethau arfaethedig y Cyngor a nodir yn y [Cynllun Corfforaethol 2020-2024 'Gwneud Gwahaniaeth'](#):

- Sicrhau bod **Pobl**: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
- Creu **Lleoedd**: y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw;
- Galluogi **Ffyniant**: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

Mae'r cynllun yn rhoi'r trigolion wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan 75 o aelodau etholedig ac mae'n gweithredu system Cabinet. Mae gyda'r Cyngor Garfan Uwch Rheoli sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr, ac mae Uwch Gyfarwyddwyr yn mynychu ei chyfarfodydd. Mae dros 10,000 o weithwyr wedi'u cyflogi mewn amryw o feysydd gwasanaeth a swyddi yn rhan o'r cyfadranau canlynol:

- Cyfadran y Prif Weithredwr
- Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

3. Adrodd am Gydraddoldeb

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni gwahanol ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor er mwyn cofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob un o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu trin dan ddyletswyddau penodol Cymru, yn

cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021.

Mae'r rheoliadau yn mynnu'r canlynol:

Rhaid bod adroddiad 2020-2021 yn nodi:

- Camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth yma wrth fodloni 3 nod y ddyletswydd gyffredinol;
- Unrhyw resymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- Datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- Gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog;
- Cynnydd o ran cyflawni pob un o'i hamcanion cydraddoldeb yr awdurdod;
- Datganiad o ba mor effeithiol yw camau gweithredu'r awdurdod tuag at gyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb.

4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor (a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus) wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau fel eu bod nhw'n rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu (disgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig i'w gweld isod);
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

Nodweddion Gwarchoddedig

Dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi'r mathau o bobl sydd mwyaf tebygol o brofi niwed sylweddol/camwahaniaethu oherwydd pwy ydyn nhw. Diben y gyfraith yw diogelu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu gred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig berthnasol a'r rheiny sydd ddim yn eu rhannu, rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i:

- Cael gwared ar anfanteision sy'n wynebu pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno, neu'u lleihau;
- Diwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl hynny sydd ddim yn eu rhannu;
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae niferoedd y bobl hynny sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl yn arbennig am sut y bydd yn mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni gofynion y Ddyletswydd Gyffredinol.

5. Cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Caiff gwybodaeth berthnasol ei hystyried i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Gall gwybodaeth gynnwys data o ffynonellau lleol ac/neu fewnol megis arolygon i gwsmeriaid, fforymau cymunedol neu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â data o ffynonellau cenedlaethol ac/neu allanol megis gwybodaeth cyfrifiad, adroddiadau ymchwil ac ystadegau ynghylch troseddau casineb.

Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Wrth ystyried sut i nodi pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr adroddiad yma, edrychodd y Cyngor yn gyntaf ar yr wybodaeth a ystyriwyd ganddo wrth adolygu ei

Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd hyn yn caniatáu i'r Cyngor fyfyrto a monitro a yw'r wybodaeth yn dal yn briodol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol.

Wrth adolygu'r amcanion cydraddoldeb, edrychwyd ar adroddiadau monitro a materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau cydraddoldeb blynyddol blaenorol i nodi a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol.

Am fanylion llawn, ewch i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y Cyngor: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf](#)

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn dal i fod yn berthnasol i ddarpariaeth y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Mae dogfennau mewnol yn nodi'r wybodaeth ystadegol sy'n gallu cael ei defnyddio er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu neu at ddibenion cymharu er mwyn nodi gwelliannau neu feysydd ar gyfer gwella. Mae strategaethau mewnol a'u cynlluniau gweithredu yn rhoi gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn darparu ei flaenoriaethau.

Mae gwybodaeth allanol, gan gynnwys gwybodaeth sydd â chyd-destun cenedlaethol, yn darparu data i'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo wrth ddatblygu polisiau a dulliau gweithredu priodol a pherthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad dim ond y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Er ei fod yn ddefnyddiol iawn, bydd gan feysydd gwasanaeth y wybodaeth briodol hefyd a allai cynorthwyo'r Cyngor i nodi sut maen nhw'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. I gasglu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd arolwg i gael gwybodaeth berthnasol o feysydd gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ei ganlyniadau yn cyfrannu at yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â hyn, mae data monitro cyflogaeth o system Adnoddau Dynol y Cyngor (sef Vision ac e-recriwtio) wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r wybodaeth berthnasol. Dylid nodi bod gwybodaeth monitro cyflogaeth yn cynnwys athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgol.

Cyflawniad y Cyngor

Prif gynllun strategol y Cyngor yw'r [Cynllun Corfforaethol 'Gwneud Gwahaniaeth'](#). Cafodd y cynllun yma ei weithredu ym mis Mawrth 2020 ac mae'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pedair mlynedd rhwng 2020 a 2024. Caiff y camau gweithredu manwl eu hamlinellu mewn cynlluniau sy'n destun monitro a chraffu gan y Cynghorwyr bob chwarter. Mae hyn yn rhan o [Adroddiadau Cyflawniad y Cyngor](#) i'r Cabinet. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r cynlluniau'n cael eu herio, eu hadolygu a'u gwerthuso yn fwy manwl.

Wedyn, mae'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn [Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol](#) blynyddol y Cyngor.

Diffyg Gwybodaeth ac Effeithiolrwydd

Er y cafodd llawer o wybodaeth ei chasglu ar gyfer yr adroddiad yma, rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n anodd casglu a monitro pob darn o wybodaeth o fewn Cyngor maint Rhondda Cynon Taf. Mae nifer o rwydweithiau traws-Gyngor, e.e. y Grŵp Swyddogion Anabledd, eisoes yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu monitro a'u rhannu. Ond, rydyn ni'n cydnabod bod modd gwneud rhagor o welliannau i sicrhau dull cyson tuag at rannu gwybodaeth.

Defnyddio Gwybodaeth

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio, roedd yn bwysig nodi arferion da ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn dangos bod ymrwymiad i gydraddoldeb yn y Cyngor.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yma'n cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2020-2024)
- Darpariaeth Gwasanaethau/Prosiectau (2020-2021)
- Arferion cyflogi
- Rhaglen Ymgynghori ac Ymgysylltu
- AEGau (2020-2021)
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth (2020-2021)
- Monitro a Darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2021).

Gwybodaeth ar Gydraddoldeb gan Feysydd Gwasanaeth

Mae enghreifftiau o arfer da mewn nifer o feysydd gwasanaeth, sy'n helpu'r Cyngor i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Fel arfer ceir yr wybodaeth trwy ein systemau rheoli cyflawniad mewnol. Mae'r adran yma'n rhoi ciplun ar rai o'r enghreifftiau o arfer da sydd gan y Cyngor ar waith i ddangos ein cydymffurfiad a'n hymrwymiad i Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Gwasanaethau i Blant

Yn dilyn adolygiad annibynnol, arolygiad ac ymgynghoriad â staff, sefydlwyd model diwygiedig o'r canllawiau ar gyfer rhoi cymorth i blant anabl a'u teuluoedd a gwnaed newidiadau i'r strwythur staffio er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth. Mae pob atgyfeiriad ar

gyfer plant anabl bellach yn dilyn yr un broses ag unrhyw atgyfeiriad arall i'r Gwasanaethau Plant ac mae Gweithiwr Cymdeithasol arbenigol yn ei le i gynnal asesiad yn ôl yr angen. Mae'r rôl yma'n dod â chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Mewn busnes gweithredol arall:

- Ceir cyfieithwyr i gefnogi teuluoedd lle nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Cynhelir cyfarfodydd gydag aelodau o'r teulu mewn lleoliadau hygyrch ac mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus yn cael eu hystyried.
- Mae Polisi Atal Talu (a.17 gynt) yn sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i atal angen a risg rhag gwaethygu oherwydd diffyg adnoddau.
- Mae cynllun cyflogaeth ar waith i roi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal i fynd i fyd gwaith.

Gwasanaethau Cymuned.

Mae Gwasanaethau Cymuned yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ag anableddau, pobl sy'n agored i niwed oherwydd amrywiaeth o faterion a phobl sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Yn ystod y pandemig, ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, canolbwyntiodd gwasanaethau ar sicrhau bod pobl yn y grwpiau canlynol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth:

- Unigolion ar y Rhestr Cleifion a Warchodir y cyfeirir ati bellach fel Rhestr o Bobl sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol
- Unigolion agored i niwed oedd ddim yn cael eu gwarchod oedd ddim ar y Rhestr Cleifion a Warchodir.

Cysylltwyd ag unigolion ar y Rhestr Cleifion a Warchodir yn unigol, (y mwyaf dros y ffôn, nifer fach trwy lythyr pan nad oedd manylion ffôn ar gael) ac aseswyd eu hanghenion. Roedd hyn yn cynnwys nodi a oedden nhw'n gymwys i gael parcel bwyd am ddim gan Lywodraeth Cymru, a oedd ganddyn nhw ofynion dietegol arbennig (os felly bydden nhw'n cael cymorth drwy'r Ganolfan Dosbarthu Bwyd sydd newydd ei sefydlu), a oedden nhw'n unig neu'n ofnus ac a hoffon nhw gael galwad ffôn cyfeillgar wythnosol ac a oedd angen cymorth arny'n nhw i wneud eu siopa/codi presgripsiynau.

Cleifion sy'n Cael eu Gwarchod gan y GIG/Cleifion sy'n Eithriadol o Agored i Niwed

| 2020 - 2021 | Cofnodion plant | Cofnodion oedolion | Cyfanswm |
|--------------------------------|------------------------|---------------------------|-----------------|
| Cyfnod Gwarchod hyd at 15 Awst | 435 | 11,203 | 11,638 |
| 31 Mawrth 2021 | 129 | 11,581 | 11,710 |

Roedd modd i unigolion agored i niwed nad oedden nhw o dan ofynion gwarchod gysylltu â Chanolfan Gyswllt y Cyngor dros y ffôn neu lenwi ffurflen ar-lein (neu ofyn i drydydd parti ei chwblhau ar eu rhan) a byddai eu cais yn cael ei drosglwyddo i'r Cydlynnydd perthnasol yn eu hardal leol. Darparwyd gwybodaeth ysgrifenedig, a ddatblygwyd i gyfathrebu ag unigolion, mewn fformat hawdd ei ddarllen i'r rhai yr oedd ei angen arny'n nhw. Mae nifer sylweddol o staff ar draws Gwasanaethau Cymunedol wedi cael hyfforddiant ar fformatau Hawdd eu Darllen.

Ar gyfer pobl ar y Rhestr Cleifion a Warchodir a oedd yn derbyn parseli bwyd Llywodraeth Cymru, mabwysiadwyd proses weinyddol a oedd yn sicrhau, pe bai parcel yn cael ei ddsbarthu i gyfeiriad a doedd dim ymateb, bod yr wybodaeth yn cael ei lanlwytho i gronfa ddata a bod carfan RhCT Gyda'n Gilydd yn cysylltu â'r person hwnnw i sicrhau ei fod yn iach. Os doedd dim ymateb ar ôl 3 galwad ffôn anfonwyd Gwirfoddolwr Ymateb Cymunedol i'r cyfeiriad i wirio statws yr unigolyn. Cynhaliwyd 700 o'r gwiriadau yma gan wirfoddolwyr yn ystod y cyfyngiadau symud.

Gwnaed trefniadau arbennig yn lleol ar gyfer pobl â phroblemau symudedd neu ofynion dietegol nad oedd yn dod o dan gwmpas darpariaeth Llywodraeth Cymru. Ymdriniwyd â'r rhain gan staff y Ganolfan Dosbarthu Bwyd, a oedd (gan ddefnyddio cyfarpar diogelwch personol priodol) yn cludo'r parseli bwyd i gartref unigolyn os nad oedd yn gallu gwneud hynny ei hunan ac yn darparu parseli pwrpasol ar gyfer pobl ag ystod eang o ofynion dietegol oherwydd alergeddau neu ofynion crefyddol.

Mae trigolion yn dal i allu gofyn am barseli bwyd brys. Cafodd 64 o barseli eu dosbarthu yn ystod y flwyddyn ariannol yma i drigolion agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n ffoi rhag trais domestig.

Mae Gwasanaethau Cymunedol wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda Chyngor ar Bopeth a phartneriaid i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i i'r rheiny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol gan fod Llywodraeth y DU wedi cael gwared ar y cynnydd a ddarparwyd i gwsmeriaid Credyd Cynhwysol drwy gydol y pandemig. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor, lledaenu gwybodaeth i holl staff y Cyngor ac ar draws ystod eang o rwydweithiau partner. Yn ogystal â'r cynnig o wiriadau lles a chyngor ar ddyledion gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, mae'r

Gwasanaeth Addysg i Oedolion wedi datblygu cyrsiau cyllidebu am ddim i'r rhai sydd angen y cymorth yma.

Yn fwy cyffredinol, mae Gwasanaethau Cymunedol yn cynnig ystod o gymorth yn rhan o'u darpariaeth sy'n canolbwyntio ar wella bywydau'r rhai sydd dan anfantais oherwydd afiechyd, anabledd ac amgylchiadau economaidd fel a ganlyn:

- Mae holl staff y llyfrgell wedi cael hyfforddiant i Ddeall Dementia ac mae gan bob llyfrgell Hyrwyddwr Dementia.
- Mae Rheolwyr Llyfrgelloedd wedi cael hyfforddiant Niwroamrywiaeth fel bod ganddyn nhw ddealltwriaeth well o sut i gefnogi pobl â niwro-wahaniaeth.
- Mae ystod ehangach o lyfrau print bras, e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn sicrhau bod deunyddiau ar gael i bob rhan o'r gymuned. Mae yna hefyd rai deunyddiau braille a chyfleuster lle mae modd i bobl nodi pa lyfrau yr hoffen nhw eu cyrchu mewn braille a gwneud cais amdanyn nhw.
- Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cefnogi mentrau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, er enghraifft hyrwyddo llyfrau gan awduron Du a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Parhaodd gwasanaeth llyfrgell yn y cartref i ddarparu mynediad at ddeunyddiau darllen a sain i bobl doedd ddim yn gallu cael mynediad i'w llyfrgell leol oherwydd salwch dros dro neu barhaol neu eiddilwch neu a oedd angen llyfrau ar gyfer eu hiechyd meddwl yn ddifawr yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r gwasanaeth yma yn parhau fel arfer ond mae mwy o drigolion wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth nawr.
- Mae'r Garfan Datblygu'r Gymuned wedi eirioli a hwyluso'r gwaith o osod cyfleusterau newid i oedolion mewn hybiau cymunedol a lleoliadau cymunedol eraill. Mae 5 lle newid i oedolion wedi'u lleoli mewn Canolfan Cydnerthedd y Gymuned ac adeiladau cymunedol.
- Mae Datblygu Cymunedol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi cydweithio â grwpiau cymunedol i ddatblygu lleoliadau gwirfoddoli i bobl ag anableddau dysgu (mae 8 yn cymryd rhan ar hyn o bryd).
- Datblygwyd darpariaeth benodol gan y Garfan Addysg i Oedolion ar gyfer pobl ag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol a chynhaliwyd hyn drwy gydol 2020 ar gyfer y rhai a oedd yn hapus i gymryd rhan mewn darpariaeth ar-lein.
- Parhaodd y ddarpariaeth cymorth cyflogaeth er ar gyfradd ostyngol hyd at fis Gorffennaf 2020. Ers hynny mae'r garfan wedi parhau i lwyddo i gefnogi pobl i mewn i waith. Mae gan 17% o'r bobl a gefnogwyd i gyflogaeth yn 2020/21 naill ai anabledd neu gyflwr iechyd hunanddatganedig sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Mae darpariaeth cymorth cyflogaeth wedi bod yn rhan weithredol o'r rhaglen Drawsnewid ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a bydd yn rhan o weithgor sy'n

edrych ar leoliadau gwaith a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer cleientiaid canolfannau oriau dydd a nodwyd.

- Mae rheolwyr Cymunedau am Waith a Mwy yn arweinwyr anabledd dynodedig ac yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Anabledd Llywodraeth Cymru ac mae carfanau staff Cymorth Cyflogaeth wedi mynychu sawl sesiwn hyfforddi.

Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol

Mae gwasanaethau craidd a gwasanaethau a ariennir gan grantiau ar gael i'n hunigolion mwyaf agored i niwed, ein cymunedau, ac eraill sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan effeithiau pandemig COVID-19. Mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn cwmpasu'r rhai sy'n profi digartrefedd, pobl sy'n cysgu ar y stryd, pobl sy'n dioddef salwch meddwl, pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, pobl ifainc gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal a phobl sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae gwasanaethau cymorth ychwanegol fel Tai yn Gyntaf wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaethau cymorth tenantiaeth ac allgymorth i unigolion ag anghenion cymhleth.

Mae'r Garfan Ceisio Cartref (Homefinder) wedi gweithio'n agos gyda'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant i gael cyngor a chymorth ar eiriad priodol a'r defnydd o iaith i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais am dŷ ar gyfer ymgeiswyr nad yw eu hunaniaeth bersonol yn cyfateb i'w rhyw enedigol. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd sy'n chwilio am dŷ.

Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ac rydyn ni'n aelodau o'u hamrywiol is-grwpiau ac yn cymryd rhan mewn Cyfarfodydd Strategaeth Cleientiaid ac Adolygiadau o Achosion o Dynladdiad Domestig.

Mae Arweinydd Camddefnyddio Sylweddau Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Phennaeth Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol ill dau yn aelodau o'r Grŵp Llywio Cyd-ddigwydd a arweinir gan y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn archwilio ymhellach sut mae modd cynnig un pwynt cyswllt i'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned sydd ag anghenion ynghylch camddefnyddio sylweddau ac anghenion iechyd meddwl i geisio'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae darpariaeth gwasanaeth Canolfan Oasis ar gael ar gyfer unigolion gwrywaidd a benywaidd sy'n dioddef cam-drin domestig ar hyn o bryd neu sydd wedi ei ddioddef yn y gorffennol. Mae Cymorth i Ferched RhCT hefyd wedi cael ei gomisiynu i ddarparu gwasanaeth sy'n ymwneud â thai i unrhyw un sydd angen cymorth o ganlyniad i gam-drin domestig yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r maes gwasanaeth hefyd yn ymwneud â'r Panel Esgeulustod Difrifol a'r trefniadau gwaith aml-asiantaeth lleol y cytunwyd arnyn nhw gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf i ddarparu proses uwchgyfeirio ar gyfer rheoli achosion o hunan-esgeulustod difrifol sy'n

gysylltiedig ag unigolion agored i niwed. Bydd y Panel Esgeulustod Difrifol yn cael ei gadeirio gan Reolwr Diogelu Oedolion ardal yr Awdurdod Lleol. Yr Is-Gadeirydd fydd Pennaeth Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol.

Mae'r Garfan Cymunedau Diogel yn rhoi pwyslais mawr ar roi cymorth i ddioddefwyr agored i niwed a dioddefwyr mynych ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maen nhw'n nodi'r dioddefwyr yma cyn gynted â phosibl ac yn rhoi mesurau diogelu ar waith i roi cymorth iddyn nhw.

Mae'r Garfan Cymunedau Diogel yn parhau i weithio gyda theuluoedd sy'n ymwneud â'r Rhaglen Adsefydlu Byd-eang. Rydyn ni hefyd yn chwarae rhan ganolog wrth gynorthwyo ardaloedd gwasgaru ac ymgysylltu â Chynllun Ehangu Gwasgaru Ceiswyr Lloches y Swyddfa Gartref.

Rydyn ni hefyd wedi ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol ar lefel strategol â Phartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru ac rydyn ni'n aelod o Fwrdd Gweithredol y Bartneriaeth, ac yn ei fynychu. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â llawer o agweddau ar ein rôl fewnfudo ehangach a'n gwaith ar gyfer mudwyr agored i niwed.

Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned

Y prif yrrwr ar gyfer y Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned yw cael gwared ar rwystrau i blant, pobl ifainc a theuluoedd rhag cael mynediad at y cymorth cywir, ar yr amser iawn, yn y lle iawn, a thrwy wneud hynny sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn deg ac yn hygyrch i'n trigolion mwyaf agored i niwed. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bileri ac egwyddorion sylfaenol ar draws y gwasanaeth ac mae pob agwedd ar ein gwaith yn canolbwyntio ar dargedu darpariaeth y gwasanaeth yn effeithiol a gwneud gwelliannau i wasanaethau i leihau anghydraddoldebau. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i anghenion unigolion a theuluoedd agored i niwed yng ngoleuni'r pandemig a theilwra cefnogaeth yn ôl gwahanol anghenion.

Mae ein gwaith Trawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar eleni wedi cyflawni ein hymrwymiad i gael gwared ar y system ddwy haen yn RhCT o ganlyniad i gyfyngiadau daearyddol y Rhaglen Dechrau'n Deg. Mae tystiolaeth eisoes bod plant a theuluoedd na fydden nhw fel arfer wedi bod yn gymwys ar gyfer cymorth yn cael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned ac yn elwa o'r newid yma yn y gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid yn cyflogi Swyddog Ymgysylltu Ieuencid sy'n rhoi cymorth a chyngor arbenigol i bobl ifainc LHDTTC+. Mae'r cymorth arbenigol yma'n cynnwys gweithio gyda phobl ifainc sy'n mynd drwy'r broses o drawsnewid, a'u teuluoedd a'r ysgolion er mwyn sicrhau bod cynlluniau unigryw a

chadarn ar waith er mwyn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol drwy gydol y broses. Mae Fforwm Ieuencid LHDTC+ hefyd wedi cael ei ail-lansio eleni.

Yn 2021 comisiynodd y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth hyfforddiant i roi cymorth i deuluoedd sydd wedi'u gwthio i'r cyrion gan eu statws ac i roi'r hyder a'r wybodaeth i staff i roi gwell cymorth i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan hyn. Yn benodol, rhoi hyfforddiant i staff y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth i roi cymorth i gyfranogwyr archwilio anghenion grwpiau amrywiol o ymfudwyr a mabwysiadu ymateb cyson i'w hanghenion Roedd hefyd yn anelu at roi cymorth i ymarferwyr i weithio'n hyderus pan doedd gan unigolion ddim hawl i arian cyhoeddus ac i ddeall pa wasanaethau sy'n gallu rhoi cymorth iddyn nhw wrth weithio gyda grwpiau amrywiol o ymfudwyr. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn ei wneud gyda theuluoedd sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn RhCT.

Mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn cysylltu'n rheolaidd ag Umbrella Cymru i helpu pobl ifainc LHDTC+ a'u teuluoedd. Mae pob aelod o staff y Gwasanaeth wedi cwblhau hyfforddiant gydag Umbrella Cymru i wella eu gwybodaeth ar bob mater LHDTC+ fel bod unrhyw ymyriad gan y Gwasanaeth yn berthnasol, ystyrlon a chynhwysol.

Anogir staff i gymryd rhan mewn rhwydweithiau staff a sesiynau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n cael eu trefnu gan y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ceisiwyd cyngor ar faterion anableded sy'n wynebu staff yn y gwasanaeth gan AD, gan weithio ochr yn ochr â'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Darperir hyfforddiant teithio gan Garfan Ôl-16 y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid ar gyfer pobl ifainc sydd angen cymorth gydag ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffordd a gwybodaeth am sut i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyfforddiant teithio yn arbennig o fuddiol i unigolion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n aml yn cael eu cludo mewn tacsï wedi'i drefnu nes iddyn nhw adael yr ysgol. Gan fod dim profiad gyda nhw o baratoi a threfnu teithiau fel hyn eu hunain, mae dod o hyd i addysg bellach, lleoliadau gwaith, hyfforddiant a phrofiadau bywyd eraill yn eithaf brawychus weithiau. Bydd nifer ohonyn nhw'n anghyfarwydd â dod o hyd i'r wybodaeth, y cyngor neu hyd yn oed y sgiliau angenrheidiol er mwyn teithio'n annibynnol. Er bod y gwaith yma wedi'i ohirio yn ystod y pandemig, mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid yn y broses o ailgychwyn y rhaglen hyfforddiant y mae'n ei darparu mewn partneriaeth ag Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor.

Mae is-grŵp fforwm Ieuencid newydd wedi'i sefydlu, sef grŵp Cydraddoldeb a Chynhwysiant, ar gais pobl ifainc yn Fforwm Ieuencid y Sir. Bydd gwaith y grŵp yma'n bwydo i mewn i'r Fforwm Ieuencid Sirol, cynghorau ysgol ac i gylch gwella'r Gwasanaeth. Hyd yn hyn, mae'r is-grŵp wedi cynnal arolwg gyda phobl ifainc trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan ofyn am eu barn ar yr hyn sydd ei angen i wneud

RhCT yn sir fwy cynhwysol ar gyfer pobl ifainc LHDTC+. Bydd y canlyniadau yma'n dylanwadu ar gynllun gwaith y grŵp.

Mae atal digartrefedd ieuencid yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Tra bod nifer y bobl ifainc digartref wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n debygol bod llawer o bobl ifainc heb breswylfa barhaol ac sy'n byw gydag aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau dros dro. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ei ymyriadau cyffredinol i leihau'r risg o ddigartrefedd, er enghraifft sesiynau ymwybyddiaeth a rhaglenni addysg i wella sgiliau bywyd. Mae'r rhain yn cael eu cynnal mewn ysgolion a chlybiau ieuencid. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi treialu prosiect gyda Llamau o'r enw Upstream Cymru, i nodi'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl o ddod yn ddigartref yn y dyfodol. Cafodd ei dreialu mewn dwy ysgol uwchradd (Aberpennar ac Aberdâr) gydag un grŵp blwyddyn ym mhob un. Llenwodd y disgyblion arolwg a oedd yn cynnwys cwestiynau ynghylch ffactorau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd (llesiant, cydnerthedd, bwlio, bywyd teuluol/cartref, cyflawniad addysgol). Helpodd y canlyniadau i nodi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn ddigartref yn y dyfodol ac atgyfeiriwyd y rhain at weithwyr Llamau yn y ddwy ysgol (neu atgyfeiriadau rhithwir yn ystod y cyfyngiadau symud). Ymdrechodd y gweithwyr i adeiladu cydnerthedd a gwella'r berthynas deuluol gyda'r nod o gadw'r disgybl yng nghartref y teulu. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot yma wedi'i ddefnyddio i ddatblygu offeryn proffilio bregusrwydd digartrefedd ieuencid mae modd ei gyflwyno i bob ysgol yn 2022. Unwaith y byddan nhw wedi'u nodi, bydd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid yn darparu cyfres o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y person ifanc ac ar y teulu i wella perthnasoedd sy'n galluogi'r person ifanc i aros yng nghartref y teulu. Bydd lefel y galw am yr ymyriad yma'n cael ei fonitro'n agos a bydd y potensial i gael cyllid i ddarparu adnoddau ychwanegol yn cael ei archwilio os bydd angen gwneud hynny.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid 5 Gweithiwr Ieuencid arbenigol i ddarparu ymyriadau mynediad agored wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl/emosiynol a lles. Bydd y Swyddogion Iechyd Meddwl a Lles yma'n mentora ac yn rhoi cymorth, gwybodaeth a chyngor uniongyrchol mewn perthynas ag iechyd a lles i bobl ifainc, yn ogystal â:

- Creu cyfleoedd a gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion iechyd meddwl a lles;
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a dilyniant i bobl ifainc yn eu hardaloedd;
- Gwella ymwybyddiaeth o anghenion iechyd a lles ymysg pobl ifainc a gweithwyr proffesiynol ledled RhCT;
- Darparu cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol eraill, a fydd yn eu galluogi i ddiwallu anghenion y bobl ifainc y maen nhw'n rhoi cymorth iddyn nhw'n well.

Mae'r garfan yma wedi datblygu perthnasau cydweithredol â busnesau sector preifat i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i grwpiau agored i niwed sy'n anodd eu cyrraedd a

nodwyd yn dilyn dadansoddi data. Enghraifft o hyn yw'r sesiynau galw heibio wythnosol ar iechyd meddwl a lles dynion sy'n cael eu cynnal yn y National Cut Hut Barbers yn Aberdâr ar gyfer dynion ifainc 18-25 oed mewn ymateb i gyfraddau uchel o geisiadau i gyflawni hunanladdiad a'r defnydd uchel o gyffuriau yn yr ardal. Yn yr un modd â mentrau newydd o'r math yma, araf fu'r ymateb cychwynnol ond mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuentid a'r National Cut Hut Barbers ill dau wedi ymrwymo i sefydlu'r gwasanaeth.

Mae GofaliChwarae yn wasanaeth sy'n cynnig cymorth i blant a phobl ifainc 5-25 oed i gael mynediad at gyfleoedd chwarae a gweithgareddau ieuentid, a/neu gymryd rhan ynddyn nhw, a hynny o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol neu deuluol. Natur y Gwasanaeth yw sicrhau bod gyda phob plentyn a pherson ifanc fynediad at gyfleoedd sy'n briodol i'w hanghenion, a bod y rhain yn cael eu darparu'n rhan o ddarpariaeth gyffredinol prif ffrwd lle bynnag y bo modd. Dros gyfnod y pandemig pan doedd dim modd cynnal cyfleoedd chwarae cyffredinol, fe wnaeth y gwasanaeth yma, gyda chymorth darparwyr a gomisiynir, barhau i ddarparu cyfleoedd chwarae wythnosol wedi'u targedu i dros 300 o'r plant mwyaf agored i niwed yn RhCT a gyfeiriwyd at y gwasanaeth gan Wasanaethau i Blant, y Garfan Plant Anabl a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Mae'r gwasanaeth yma wedi darparu cymorth amhrisiadwy i'r plant a'r teuluoedd a effeithwyd fwyaf gan ddileu cymorth ataliol o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Mae wedi chwarae rhan allweddol o ran atal teuluoedd plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant anabl ag anghenion gofal a chymorth rhag chwalu yn ogystal â chynnal y cyfraddau camu i fyny isel o'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth i garfanau statudol yn ystod y cyfnod yma.

Cafodd pecynnau llesiant eu paratoi a'u dosbarthu gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuentid yn ystod y cyfyngiadau symud, gyda'r nod o helpu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen cymorth o ran eu llesiant. Roedd y pecynnau'n darparu gweithgareddau cadarnhaol, cyngor ar ymwybyddiaeth ofalgar a thechnegau lleddfu straen, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt allweddol iddyn nhw ei defnyddio yn ystod y cyfyngiadau symud. Cafodd y pecynnau eu hanfon at dros 200 o bobl ifainc oedd yn ei chael hi'n anodd yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y pecynnau'n cynnwys:

- Cyfnodolion bywyd
- Cardiau cadarnhad
- Padiâu celf
- Pennau lliwio
- Pêl straen
- Blwch sgwrsio – gan roi awgrymiadau dyddiol ar gefnogi llesiant.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, a byddan ni'n defnyddio'r cyfnodolion bywyd yn dilyn y pandemig, gan eu defnyddio ar gyfer atgyfeiriadau yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

Rydyn ni wedi dechrau ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA), sydd i'w gyflwyno yn gynnar yn 2022. Rhan ohono yw sicrhau bod parciau, meysydd chwarae a lleoliadau chwarae awyr agored eraill yn hygyrch i gynifer o drigolion â phosibl. Mae hyn yn cynnwys mynediad i'r rheiny mewn cadair olwyn at y parciau a mynediad at yr offer chwarae. Mae'r arian ar gyfer hyn wedi'i seilio ar fynediad cyfartal i bawb at wasanaethau, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu. Mae creu un pwynt mynediad drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi hwyluso mynediad cyfartal i ddarpariaeth gwasanaeth, gan alluogi gwasanaethau i fod yn ymatebol i unrhyw anghenion a nodwyd. Mae ein gweledigaeth o ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion yn deg. Mae mynd i'r afael â rhwystrau (a lle bo modd, eu dileu) i fynediad ac ymgysylltu ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn flaenoriaeth barhaus. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cais gwreiddiol grant CCG 2019/20 ac mae'n parhau i fod yn berthnasol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth wedi parhau i sicrhau bod pecynnau cymorth priodol yn eu lle ar gyfer y rhai sy'n parhau i fod yn agored i niwed o ganlyniad i'r pandemig.

Mae blaenoriaethu plant sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant anabl) ar gyfer darpariaeth chwarae yn parhau i ddarparu cymorth i'r plentyn a'r teulu ehangach er mwyn atal teuluoedd rhag chwalu ac er mwyn atal eu hanghenion rhag cynyddu. Mae hefyd yn galluogi gwasanaethau i gynnal lefel o gyswllt â phlant a phobl ifanc rydyn ni'n gwybod eu bod mewn perygl.

Mae gwasanaethau'n parhau i ddefnyddio datrysiadau arloesol i ddileu rhwystrau i fynediad ac ymgysylltu, gan gynnwys defnyddio datrysiadau digidol.

Nododd yr arolwg cyhoeddus Rhianta drwy COVID-19 rwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu o ran cael mynediad at gymorth rhianta anffurfiol. Mae gwaith ailgomisiynu'r ddarpariaeth cymorth rhianta wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn yn y tymor hwy. Mae gwasanaethau sydd newydd eu comisiynu'n cynnwys darparu arlwy rhianta rhithwir yn ogystal â chymorth rhianta anffurfiol wyneb yn wyneb (gyda llwybrau clir i gael cymorth mwy ffurfiol neu arbenigol). Bydd hyn yn cael ei gynig mewn lleoliadau cymunedol lleol sydd ar gael gyda'r nos yn ogystal ag yn ystod y dydd.

Mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido yn adolygu gwasanaethau a gafodd eu comisiynu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas at y diben, yn darparu gwerth am arian ac yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned. Yna, mae canfyddiadau ymgynghoriadau ac adolygiadau'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol. Wrth

adolygu gwasanaethau'n rheolaidd, mae'n rhoi cyfle i gydlynu'r broses cynllunio a darparu gwasanaethau'n well. Y nod felly yw gwneud y mwyaf o adnoddau a gwella deilliannau wrth sicrhau gwell gwerth am arian a mynediad cyfartal i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Eiddo'r Cyngor

Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor yw uwch arweinydd y Cyngor ar gyfer y Rhwydwaith Anabled a Chynhalwyr. Mae'r rôl yn cynnwys cyswllt rheolaidd â'r rhwydwaith staff, rhoi cyngor a mynd â mentrau ymlaen i'r Uwch Garfan Arwain i'w hystyried.

Mae llawer o adeiladau cyhoeddus y Cyngor yn hygyrch ac mae addasiadau rhesymol wedi'u cynnal lle bo hynny'n ymarferol ac yn rhesymol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb.

Mae'r isadran Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau sydd wedi cynnwys cyfleusterau Changing Places, megis estyniad bloc cawodydd ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, Lido/Caffi ym Mharc Ynysangharad a'r Hwb yn Aberpennar a Glynrhedynog.

Gwasanaethau Democrataidd

Mae gan y Gwasanaethau Democrataidd rôl allweddol wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gydag adroddiadau Cabinet;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y gwaith sy'n cael ei gynnal mewn perthynas ag amrywiaeth mewn democratiaeth;
- Cynorthwyo i sefydlu a ffurfio'r Paneli Adolygu Aseidiadau ar Effaith sydd newydd eu cyflwyno ac sy'n ceisio cryfhau aseidiadau effaith er budd y gymuned a'i thrigolion. Roedd hyn yn cynnwys diwygio arddull adrodd y Cabinet a'r pwyllgorau i adlewyrchu cyflwyniad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ogystal â Safonau'r Gymraeg;
- Gwaith y Gweithgor Amrywiaeth mewn Democratiaeth a chefnogaeth y Cyngor i'r datganiad amrywiaeth er mwyn annog Cyngor mwy amrywiol;
- Llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddrafft sy'n cefnogi'r deilliant bwriadedig o ddangos parch at bobl eraill sydd â safbwyntiau gwleidyddol amrywiol a dangos cydweithio er budd ei gymunedau, gan ddilyn gwaith y Gweithgor Amrywiaeth mewn Democratiaeth;

- Newidiadau wedi'u bwrw ymlaen yn Siambr y Cyngor gan sicrhau gwelliannau i hygyrchedd, gan gynnwys gostwng ymyl y pafin y tu allan i'r Siambr a gosod rampiau at y bwrdd uchaf yn y Siambr.

Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant

Cymorth i Ddisgyblion sy'n Agored i Niwed

Yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud, roedd perthnasau gwaith agos gyda Gwasanaethau i Blant yn ein galluogi i ddarparu lleoliadau mewn canolfannau ar gyfer disgyblion agored i niwed. Roedd presenoldeb yn cael ei fonitro'n ddyddiol i sicrhau y byddai modd rhoi cymorth ar waith cyn gynted â phosibl mewn achosion lle nad oedd teuluoedd yn defnyddio'u lleoliadau.

Gweithiodd Addysg a Gwasanaethau i Blant ar y cyd i roi Protocol Dysgwyr Agored i Niwed ar waith i sicrhau bod y disgyblion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn cael lefel uchel o gyswllt o ran diogelu, lles a pharhad dysgu. Defnyddiwyd y Protocol Disgyblion Agored i Niwed ar gyfer y cyfnod pan roedd ysgolion ar gau a'r 3 wythnos o ddychwelyd i'r ysgol yn raddol ar ddiwedd gwyliau'r haf.

Yn ystod cyfnod COVID-19 pan roedd ysgolion ar gau, cafodd 22,138 o gysylltiadau ei gwneud â 1,970 o unigolion. Yn dilyn rhoi'r Protocol Disgyblion Agored i Niwed ar waith (rhwng 1 Mai a diwedd tymor yr haf), cafodd 132 o atgyfeiriadau eu gwneud i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles er mwyn gweithredu ar y cyd. O'r rhain, llwyddodd swyddogion RhCT i gysylltu â 124 ohonyn nhw, ac fe wnaeth 8 arwain at 101 o wiriadau lles gan yr heddlu. Cafodd 4 disgybl ychwanegol eu nodi'n 'Blant sydd ar goll o fydd Addysg' yn ystod y cyfnod yma, a chafodd cyswllt ei sefydlu'n llwyddiannus.

Roedd y gwaith yma'n llywio newidiadau i'r ffordd y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu yn ystod tymor yr hydref 2020/21, er mwyn parhau i gydweithredu a gwella'r broses o rannu data rhwng gwasanaethau'r Cyngor ac ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau Ymateb Lles rheolaidd gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles (pob lleoliad ar rota bob 3 diwrnod) ac ymweliadau brys ar gyfer disgyblion amddiffyn plant a oedd heb gael eu gweld am 24 awr. Arweiniodd hyn at dros 10,000 o ymweliadau yn y flwyddyn academaidd, gydag atgyfeiriadau'n cael eu gwneud o'r ymweliadau hyn i gymorth cwnsela, Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid a Gwasanaethau Teuluoedd Cydnerth yn rhan o'r Llwybr Llesiant Integredig.

Mae data ar gyfer grwpiau agored i niwed bellach yn cael ei ddarparu'n rheolaidd gan Addysg a Gwasanaethau i Blant ac mae'n awgrymu na fu twf sylweddol yn nifer y disgyblion agored i niwed.

| Mis | Cynllun Gofal a Chymorth | Plant sy'n Derbyn Gofal | Diogelu Plant | Cynhaliwr Ifanc | Â Datganiad |
|--------------|--------------------------|-------------------------|---------------|-----------------|-------------|
| Mehefin 2020 | 651 | 398 | 295 | 112 | 1262 |
| Medi 2020 | 661 | 403 | 272 | 117 | 1263 |
| Ionawr 2020 | 648 | 406 | 290 | 114 | 1320 |

Disgyblion ag Anghenion Iechyd a Meddygol Cymhleth

Yn ystod y pandemig cynhaliodd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant gyfarfodydd bob tymor gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i drafod disgyblion ag anghenion meddygol ac iechyd sylweddol i sicrhau eu bod nhw'n gallu cyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Cafodd addasiadau rhesymol eu rhoi ar waith gydag asesiadau risg uwch i sicrhau bod modd i'r disgyblion â'r anghenion meddygol mwyaf cymhleth gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol.

Cafodd cyngor arbenigol ei roi i ysgolion er mwyn ysgrifennu asesiadau risg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd a meddygol cymhleth. Cafodd asesiadau risg enghreifftiol eu hysgrifennu ar gyfer lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd i gefnogi eu datblygiad. Mae'r canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion yn cael eu ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'n ddigonol y sefyllfa bresennol ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed.

Diogelu

Mae'r Polisi Diogelu ar gyfer ysgolion yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu. Mae Operation Encompass yn parhau i roi gwybod yn gynnar i ysgolion am achosion o drais domestig yng nghartrefi teuluoedd y plant er mwyn hyrwyddo cymorth ac ymyrraeth effeithiol.

Rhwystrau i Bresenoldeb

Roedden ni'n effro yn sgil presenoldeb yn ystod tymor yr haf 2019/20 y byddai ffigurau absenoldeb yn codi'n sylweddol o ganlyniad i'r pandemig a heb offerynnau statudol (erlyniadau/hysbysiadau cosb benodedig am absenoldebau ysgol), y byddai angen newid ymagwedd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Cynhaliodd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg hyfforddiant gyda Phenaeithaid a staff Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn nhymor yr haf 2020 i asesu effaith COVID-19 ar deuluoedd a staff a sut ymdrin â chymorth i deuluoedd. Mae'r dysgu yma wedi helpu ysgolion a'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i roi cymorth i deuluoedd i ailgysylltu â'r ysgol.

Mae staff hefyd wedi cael eu hannog i ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol ar gyfer addysg a phenderfynu lle mae anghenion a bylchau yn bodoli o fewn adnoddau teuluoedd i sicrhau bod rhwystrau i bresenoldeb yn cael eu dileu.

Cafodd ymweliadau Ymateb Lles yn rhan o Llwybr Llesiant Integredig gyda Gwasanaethau i Blant eu cyflwyno ym mis Medi 2020. Darparodd hyn mwy o bresenoldeb mewn cymunedau er mwyn rhoi sicrwydd i rieni am y mesurau y mae lleoliadau wedi'u rhoi ar waith i'w gwneud yn ddiogel. Mae'r Llwybr Llesiant Integredig yn gweithio ar y cyd ag Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid, Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Gwasanaeth Cwnsela Eye 2 Eye ac yn parhau i weithredu yn y flwyddyn academaidd 2021/22. Mae modd i ysgolion atgyfeirio at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ar gyfer ymweliadau Ymateb Lles, sy'n cynnwys gwasanaeth curo drws i deuluoedd lle mae disgyblion yn absennol. Mae ysgolion yn blaenoriaethu plant agored i niwed ar gyfer yr ymweliadau yma ochr yn ochr â'r cymorth maen nhw eisoes yn ei gynnig. Roedd pob lleoliad yn rhan o rota 3 diwrnod ar gyfer Ymweliadau Ymateb Lles i ganfod anghenion o ran llesiant a sicrhau bod disgyblion a'u teuluoedd yn cael eu diogelu'n effeithiol, yn ogystal ag annog disgyblion i ailymgysylltu ag addysg. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cafodd dros 10,000 o ymweliadau eu cynnal i sicrhau bod mesurau diogelu effeithiol a chymorth i ddisgyblion/teuluoedd ar waith.

Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi gweithredu Cam 1 o fodel darparu gwasanaeth diwygiedig i wella cyswllt uniongyrchol â theuluoedd sydd angen cymorth o ganlyniad i bryder ynghylch dychwelyd i'r ysgol. Mae'r dull yma'n ymgorffori menter cymorth cyn cwnsela'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid yn rhan o ddull cydweithredol o gefnogi llesiant disgyblion ar hyd Llwybr Llesiant Integredig. Yn nhymor y gwanwyn 2021, cafodd arolwg ei gynnal gydag ysgolion, ac ymatebodd 111 o 115 o ysgolion. Dywedodd 82% o'r rhain fod ansawdd presennol Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles naill ai'n 'Dda' neu'n 'Dda lawn'. Nododd 91% eu bod nhw'n credu bod y ffordd bresennol o weithio wedi gwella'r berthynas â'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Dywedodd 86% fod proses Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi helpu i nodi disgyblion agored i niwed nad oedd yn mynychu. Roedd 72% yn credu bod y broses wedi cynyddu ymgysylltiad rhieni.

Cymorth ar gyfer Llesiant

Mae Cynllun Gweithredu Llesiant 2020/21, a gefnogwyd gan grant gwerth £120,755 gan Lywodraeth Cymru (LIC), wedi'i roi ar waith a'i werthuso. Mae'r cynllun yn dangos effaith gadarnhaol ar feithrin gallu ysgolion i fodloni anghenion iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol disgyblion.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Gwasanaethau i Blant wedi ymgymryd â hyfforddiant yn y model adfer trawma i ddarparu dulliau gwell o reoli achosion er mwyn

cefnogi gweithwyr proffesiynol i ymateb i'n disgyblion sy'n Derbyn Gofal (CLA) mwyaf agored i niwed. Mae Gwasanaethau i Blant yn monitro effaith y dull yma drwy'r cartrefi preswyl i blant, a bydd hyn yn llywio arfer yn y dyfodol.

Darparodd Seicolegwyr Addysg Cynorthwyol dros dro gymorth ychwanegol i ddisgyblion/teuluoedd yn Nhŷ Gwyn mewn perthynas â llesiant o fewn dull sy'n ystyried trawma. Roedden nhw'n cefnogi datblygiad strategol dulliau therapiwtig o fewn yr Uned Atgyfeirio Disgyblion. Mae holl staff yr Uned Atgyfeirio Disgyblion bellach wedi dilyn hyfforddiant mewn Dulliau sy'n Ystyried Trawma, gyda 4 yn dilyn hyfforddiant diploma.

Mae amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys hyfforddiant hyfforddi emosiwn, hyfforddiant iechyd meddwl a lles wedi cael eu cyflwyno ar draws ein hysgolion.

Mae nifer o weithgorau aml-asiantaeth wedi'u sefydlu gan gynnwys Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, LHDTQ+ a Grŵp Llesiant Rhieni, Disgyblion a Staff ar gyfer ysgolion.

Data ar gyfer gwaharddiadau a bwlio o ganlyniad i ddigwyddiadau hiliol

Mae data ar gyfer gwaharddiadau a bwlio o ganlyniad i ddigwyddiadau hiliol yn dangos na fu unrhyw waharddiadau parhaol yn sgil digwyddiadau hiliol dros y 3 blynedd academaidd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae data sy'n ymwneud â gwaharddiadau cyfnod penodol a digwyddiadau bwlio yn dangos cynnydd yng nghanran y digwyddiadau hiliol rhwng 2018/19 a 2020/21.

| Blwyddyn | Digwyddiadau Hiliol | | | |
|-----------|------------------------------|------------------------|------------------|----------------|
| | Gwaharddiadau Cyfnod Penodol | Canran y Gwaharddiadau | Achosion o Fwlio | Canran y Bwlio |
| 2018/2019 | 20 | 0.74 | 20 | 5.33 |
| 2019/2020 | 10 | 0.67 | 4 | 2.94 |
| 2020/2021 | 20 | 1.40 | 9 | 7.20 |

Mae'r gweithgor Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sefydledig wedi cynnal ymchwil ansoddol i brofiadau bywyd disgyblion Du yn RhCT rhwng 13 ac 18 oed. Mae hyn wedi nodi themâu a blaenoriaethau allweddol i ni o ran cydraddoldeb hiliol yn ein hysgolion.

Mae gwaith parhaus yn cael ei gynnal gyda Stonewall Cymru yn ymwneud ag ymwybyddiaeth a chymorth LHDTQ+ i ysgolion. Mae'r gwaith yma bellach yn cael ei gefnogi gan Seicolegydd Addysg Cynorthwyol, a chaiff ei werthuso i nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Cafodd llinell gymorth Gwasanaeth Seicoleg Addysg ei sefydlu yn ystod y pandemig. Yn dilyn adborth cadarnhaol gan ysgolion, partneriaid a rhieni, mae llinell ffôn y Gwasanaeth

Seicoleg Addysg yn parhau i fod yn rhan ganolog o Fodel Darparu Gwasanaeth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, gyda 88 o alwadau'n wedi'u gwneud rhwng Medi a Thachwedd 2021.

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig

Rydyn ni wedi buddsoddi mewn cymorth i ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol. Yn ogystal â'n darpariaeth yn ein hysgolion arbennig ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion, mae darpariaeth wedi'i sefydlu mewn 10 ysgol uwchradd/pob oed ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4.

Rydyn ni wedi addasu ein darpariaeth gwasanaeth i gynnal ein dyletswyddau statudol mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), gan gynnwys Adolygiadau Blynyddol rhithwir a Phaneli Mynediad a Chynhwysiant. Roedd Penaethiaid a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn cydgysylltu'n effeithiol ac fe sicrhodd hyn adolygiad parhaus o gapasiti staffio mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Doedd dim angen i unrhyw Ddosbarth Cynnal Dysgu gau o ganlyniad i broblemau o ran capasiti staffio drwy gydol cyfyngiadau COVID-19 ac fe gafodd staff eu lleoli'n effeithiol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Er mwyn sicrhau bod modd i deuluoedd sydd â phlentyn ag anabledd neu anghenion cymorth ychwanegol elwa'n llawn ar ymyriadau cymorth i deuluoedd, mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn cynnig Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol pwrpasol. Nod y gwasanaeth yw ceisio gwella eu cydnerthedd, a hynny drwy ganolbwyntio ar gynorthwyo teuluoedd lle mae anghenion corfforol, dysgu neu niwroddatblygiadol y plentyn yn effeithio ar fywyd y teulu, er mwyn deall unrhyw anghenion ychwanegol yn well, ac i wella perthynas y teulu. Gan fod dim meini prawf trothwy gyda'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol, mae modd i ni sicrhau bod y teuluoedd sydd â'r angen mwyaf yn derbyn cymorth priodol. Rhoddodd y garfan Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol gymorth i 284 o deuluoedd yn ystod 2020/21

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae ein Carfan Etholiadau wedi gweithio i ymgysylltu â phleidleiswyr sydd newydd eu hetholfreinio (16-17 oed) drwy hyrwyddo ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a mentrau parhaus yn rhan o agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru.

Adran Adfywio a Datblygu

Mae'r Garfan Strategaeth a Buddsoddi Tai yn sicrhau bod y gwasanaeth maen nhw'n ei darparu yn gynhwysol, yn gyfartal ac yn deg i bob defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'r holl brosesau gwneud cais am grant yn cael eu cynnig ar-lein ond bu'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda Charfan Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor yn ystod 2020/21 er mwyn gwella'r broses gwneud cais am grant ar-lein, gan sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd angen addasiadau rhesymol er mwyn cwblhau'r cais ar-lein gael mynediad at y cymorth yma.

Adborth o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Mae'r Adran Grantiau Tai wedi ymgysylltu â 669 o gleientiaid yn ystod 2020/21 er mwyn ceisio'u barn ar y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gawsant gan y Cyngor. Cafodd yr ymatebion canlynol eu casglu gan yr ymgeiswyr yn dilyn yr addasiadau a wnaed i'w cartref:

- Cytunodd 96% o ymgeiswyr eu bod nhw'n gallu gwneud pethau nad oedden nhw'n gallu eu gwneud o'r blaen a'u bod nhw'n teimlo'n fwy hyderus ac annibynnol;
- Cytunodd 97% o ymgeiswyr ei bod bellach yn haws i'w teulu/cynhaliwr eu helpu nhw gyda'u hanghenion dyddiol ar ôl i'r addasiad gael ei gwblhau;
- Cytunodd 99% o ymgeiswyr fod ansawdd eu bywyd wedi gwella;
- Roedd 98% o ymgeiswyr yn fodlon ar yr addasiad a gawson nhw.

Yn gyffredinol, mae'r adborth a ddaeth i law gan ymgeiswyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r addasiadau a gawson nhw drwy'r grant. Ar hyn o bryd mae'r wybodaeth yma'n cael ei chasglu trwy alwadau ffôn, fodd bynnag mae'r gwasanaeth yn adolygu'r dull yma a bydd yn treialu ffurflen adborth ar-lein yn 2021/22. Mae modd cynnal arolygon dros y ffôn o hyd os oes angen.

Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu Cymru

Mae'r Cyngor yn bartner â WITS ac mae ganddo Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer darparu'r gwasanaeth priodol drwy Gyngor Caerdydd. Yn ystod 2020/21, cafodd y gwasanaeth ei ddefnyddio 249 o weithiau. Cafodd 28 o ieithoedd eu defnyddio, yn ogystal â dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Y pum iaith y cafwyd y mwyaf o geisiadau ar eu cyfer yn ystod 2020/21 oedd Arabeg, Rwmaneg, Mandarin, Wrddw a Phwyleg.

Cyflawni Strategaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i drigolion er mwyn casglu gwybodaeth sy'n helpu â gwaith cynllunio, blaenoriaethu a nodi meysydd i'w gwella a gwasanaethau i'w newid, pennu a monitro safonau cyflawniad a mesur ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae'r pandemig COVID-19 parhaus wedi dod â heriau o ran ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Yn Rhondda Cynon Taf rydyn ni wedi datblygu dull wyneb-yn-wyneb llwyddiannus iawn gyda thrigolion a rhanddeiliaid eraill yn y blynyddoedd diwethaf ac rydyn ni wedi gorfod datblygu dull 'digidol yn ddiodyn' yn 2020 a barhaodd i mewn i 2021. Dim ond hyn a hyn o ymgysylltu wyneb yn wyneb â thrigolion sydd wedi bod yn bosibl ond rydyn ni'n gobeithio dod â'r dull yma'n ôl wrth symud ymlaen.

Parhaodd y dull a ddefnyddiwyd gennyn ni yn 2021 â'r gwaith cadarnhaol drwy sicrhau bod yr holl breswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael pob cyfle i roi adborth. Roedd yr ymgynghoriad ar gyllideb 2021/22, er enghraifft, yn defnyddio dull 'digidol yn ddiodyn', wrth barhau i ystyried grwpiau anodd eu cyrraedd, y rhai sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngwyrdd neu ddim mynediad o gwbl a'r rhai y mae'n well ganddyn nhw ymgysylltu drwy ddulliau traddodiadol.

Yn 2021 fe wnaethon ni gyflwyno ein gwefan ymgysylltu [Dewch i Siarad RhCT](#). Mae gan y wefan gyfres o offer ymgysylltu sydd wedi gwella ein cynnig ac wedi ei gwneud hi'n haws ymgysylltu.

Dechreuon ni sgwrs ar Newid Hinsawdd trwy sefydlu [Dewch i Siarad am y Newid yn yr Hinsawdd RhCT](#) a defnyddio amrywiaeth eang o offer i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd gan gynnwys arolwg, syniadau, straeon, arolygon cyflym a lleoedd (offeryn mapio). Mae gwefan newydd Dewch i Siarad yn cefnogi gwaith y Grŵp Llywio ar faterion yr Hinsawdd ac mae canlyniadau'r ymgysylltu yma wedi llywio Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor.

Ers cyflwyno'r wefan yn 2021, rydyn ni wedi ymgysylltu ar amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys:

- Dewch i ni drafod y Cynllun Datblygu Lleol
- Dewch i Siarad am y Gymraeg
- Dewch i Siarad am y Lluoedd Arfog
- Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt
- Dewch i Siarad am Wefru Cerbydau Trydan
- Dewch i Siarad am y Newid yn yr Hinsawdd RhCT.

Yn ystod 2021, fe wnaethon ni gefnogi neu reoli 66 o weithgareddau/ymgynghoriadau ymgysylltu a chefnogi nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar y Gyllideb a'r Newid yn yr Hinsawdd.

Yn 2021/22 bydd y garfan yn cefnogi'r broses Asesu Effaith ddiwygiedig drwy benodi Swyddog Dadansoddi Data Cymunedol newydd, gan gysylltu â'r gofynion data

asesiadau effaith cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r rôl hefyd yn caniatáu dehongli tystiolaeth ystadegol i gefnogi gwasanaethau ar draws y Cyngor yn eu penderfyniadau.

Dyma rai enghreifftiau o sut mae trigolion a chymunedau wedi bod yn rhan o waith y Cyngor yn 2021:

- Ymgysylltu â dros 1,000 o drigolion ar ein hymgyngoriad cyllideb;
- Ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifainc trwy Instagram;
- Ymgynghoriad ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg, lle buom yn cynnal 3 sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb cyhoeddus mewn Llyfrgelloedd ar draws Rhondda Cynon Taf. Roedd modd i aelodau'r cyhoedd rannu eu barn ar sut i gefnogi'r Gymraeg ac awgrymu unrhyw ychwanegiadau neu sylwadau cyffredinol;
- Parhau i ymgysylltu a chynnwys trigolion a chymunedau mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor.
- Cefnogwyd Ymgynghoriadau Ysgolion;
- Ymgysylltu parhaus â'r Grŵp Cyngori Pobl Hŷn ynghylch materion a allai gefnogi eu gallu i adael eu cartrefi. Mae gennyn ni Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd ag Age Connects Morgannwg a'r Grŵp Cyngori Pobl Hŷn i gefnogi pobl hŷn yn RhCT ac ymgysylltu gyda nhw. Yn ystod y pandemig roedd hyn yn galluogi pobl hŷn i gadw mewn cysylltiad ag aelodau trwy gylchlythyrau rheolaidd a darparu gwybodaeth;
- Rydyn ni wedi cysylltu â Fforwm Anabledd y Cyngor mewn trafodaethau a thrwy arolygon parhaus;
- Wedi ystyried adolygiad o'n Panel Dinasyddion a chysylltu â Gwefan Dewch i Siarad i reoli a hyrwyddo ymgynghoriadau gyda defnyddwyr cofrestredig;
- Fe wnaethon ni ddarparu opsiwn rhabdost a rhif ffôn i'r rhai oedd heb fodd i ymgysylltu'n ddigidol, yn ogystal â'n dull wyneb yn wyneb;
- Fe wnaethon ni gysylltu â gwasanaethau eraill wrth gynnal ein sesiynau wyneb-yn-wyneb, o ymgynghoriadau cydgysylltiedig, i ddarparu bagiau gwastraff a chynghor a gwybodaeth;
- Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â thrigolion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn casglu barn trigolion a hyrwyddo ymgynghoriadau.

Mae'r holl ddogfennau ymgynghori ac ymgysylltu ar gael yn Gymraeg. Mae gennyn ni berthynas waith ardderchog gydag Uned Gymraeg y Cyngor gan ein bod ni'n cyfieithu'r mwyafrif helaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni hefyd yn cynorthwyo staff yr adran Gymraeg gyda'u hymgyngoriadau eu hunain. Mae'r adran yn parhau i gefnogi

aelodau o staff sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn eu helpu i siarad â siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol achlysuron rydyn ni'n cymryd rhan ynddyn nhw.

Rydyn ni wedi cyflwyno cwestiwn newydd i'w ddefnyddio mewn ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei chael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg.

Ym mhob ymgynghoriad rydyn ni'n ei gynnal, rydyn ni'n ceisio ymgysylltu â'r ystod ehangaf o bobl ag sy'n bosibl. Ein nod yw canfod barn pob grŵp sy'n byw yn y fwrdeistref, yn ogystal â chynrychioli pob barn a phryder. Rydyn ni wedi cyflwyno cwestiwn newydd ar gyfer ymgynghoriadau newid gwasanaeth sy'n caniatáu i'r Cyngor asesu effaith unrhyw newidiadau ar nifer o nodweddion gwarchodedig. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno fersiynau Hawdd eu Darllen o'r holl ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth, gan weithio gydag Anabledd Dysgu Cymru.

6. Amcanion Cydraddoldeb

Yn 2019 lanswyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2019-2022). Er mwyn helpu i ddatblygu amcanion cydraddoldeb priodol a pherthnasol, cafodd adroddiad 'Pa mor deg yw Cymru? 2018' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei ddefnyddio'n brif ffynhonnell gyfeirio. Roedd amcanion cydraddoldeb wedi'u halinio â nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol 'Cymru Mwy Cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'.

Cafodd ymgynghoriad cynhwysfawr ei gynnal gyda'r cyhoedd a chafodd grwpiau cymunedol sy'n adlewyrchu'r 'nodweddion gwarchodedig' sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 eu targedu drwy waith ymgysylltu. Mae modd dod o hyd i'r adroddiad ymgysylltu llawn [yma](#).

Drwy ymgysylltu ac ymgynghori â nifer o feysydd gwasanaeth y Cyngor, cafodd yr amcanion cydraddoldeb canlynol eu nodi a'u cyhoeddi'n rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2022. Mae ein hamcanion cydraddoldeb fel a ganlyn:

- Amcan 1 Deall anghenion ein cymunedau yn well a deall yr hyn sy'n eu rhwystro rhag ffynnu;
- Amcan 2 Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau;
- Amcan 3 Hyrwyddo cymunedau diogel;
- Amcan 4 Lleihau'r bwlb ch cyflog rhwng y rhywiau;
- Amcan 5 Creu gweithlu cynhwysol.

Mae cynllun gweithredu wedi'i lunio sy'n amlinellu camau gweithredu penodol mewn perthynas â phob un o'r amcanion cydraddoldeb. Bydd y camau yma'n cael eu monitro trwy gynlluniau cyflenwi meysydd gwasanaeth.

Isod rydyn ni'n dangos amlinelliad o'n cynnydd tuag at yr amcanion cydraddoldeb. Dylid nodi nad oedd pob cam gweithredu i fod i gychwyn ym mlwyddyn ariannol 2019/20 a bydd y rhain yn cael eu symud ymlaen yn y blynyddoedd dilynol.

Amcan 1 – Deall anghenion ein cymunedau yn well a deall yr hyn sy'n eu rhwystro rhag ffynnu.

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyh nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau yma isod.

Cam Gweithredu 1 – Nodi grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli holl amrywiaeth dinasyddion Rhondda Cynon Taf a datblygu sianeli cyfathrebu hygyrch gyda nhw.

Mae gan y Cyngor lawer o gysylltiadau sefydledig gyda grwpiau cymunedol ar draws RhCT, er enghraifft, fforymau ieuenctid, Grwpiau Cynghori Pobl Hŷn a'r Cylch Trafod Materion Anabledd. Ffocws y cam gweithredu yma yw ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol heb gynrychiolaeth ddigonol ac unigolion sydd ddim wedi cael llwybrau cyfathrebu rheolaidd â'r Cyngor.

Grwpiau Cymunedol

Parhaodd y Garfan Cydlyniant Cymunedol i weithio'n agos gyda Chymorth Lleiafrifoedd Ethnig y Cymoedd, sydd ag aelodau'n dod o lawer o wahanol wledydd ac sydd ag amrywiaeth ethnig eang. Mae'r grŵp yn gweithio i oresgyn rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau lleol, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn anffodus, rhoddodd llawer o grwpiau'r gorau i gyfarfod yn ystod y pandemig, tra parhaodd eraill i wneud hynny'n rhithwir lle'r oedd modd. Gwnaed llawer o ymdrechion i gysylltu â Phrosiect Unity (prosiect sy'n cynnig cymorth i'r rhai sy'n ystyried eu bod yn LHDTTC+) er enghraifft, ond fe wnaethon ni ddarganfod yn ddiweddarach bod yr elusen wedi rhoi'r gorau i weithredu yn ystod y pandemig. Yn anffodus roedd hyn yn thema gyffredin ymhlith llawer o grwpiau cymunedol yn ystod y cyfnod yma. Parhaodd y Garfan Cydlyniant i weithio gyda'r Grwpiau Cynghori Pobl Hŷn i ddeall y rhwystrau y maent yn eu hwynebu yn well.

Fforwm Materion Anabledd

Bu'n her cynnal cyfarfodydd cwbl hygyrch ag aelodau'r Fforwm Materion Anabledd yn ystod y pandemig oherwydd bod aelodau wedi'u hallgáu'n ddigidol a/neu diffyg addasrwydd llwyfannau digidol. Mae cyswllt ffôn wedi'i gynnal gyda'r holl aelodau i drafod unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw ac i drafod eu lles.

Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig (cyfyngiadau symud mis Mawrth – diwedd Gorffennaf 2020) roedd rhaid i swyddogion y Cyngor gyfeirio trigolion lleol sy'n dymuno gwneud cais am statws rhagsefydlog neu sefydlog i'r Cynllun dros y ffôn yn unig. Ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi, aeth y Swyddog Cydlyniant Cymunedol i safle trwyddedig yn RhCT gyda Swyddogion Trwyddedu'r Cyngor i atgyfnerthu'r neges i unrhyw wladolion yr UE bod modd iddyn nhw wneud cais i'r cynllun hyd at 31 Rhagfyr 2020. O'r 19 safle yr ymwelwyd â nhw, roedd yr holl staff eisoes wedi cael statws neu yn y broses o wneud cais. Drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2020, bu'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn gweithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth Casnewydd i nodi gweithleoedd a allai fod â gweithwyr sydd yn dal i fod angen gwneud cais. Ddechrau Rhagfyr 2020 rhoddwyd gwybodaeth i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn hysbysu gweithwyr oedd yn dal i fod angen gwneud cais i aros yn y DU ar ôl y dyddiad cau ar gyfer Brexit.

Wythnos Diogelu

Bu'r Garfan Cydlyniant Cymunedol yn cynorthwyo Heddlu De Cymru yn Ymgyrch BETSY ar draws Cwm Taf, a oedd yn rhan o Gynllun Cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru. Nod yr ymgyrch oedd nodi pobl a allai fod yn agored i niwed oherwydd colli cof ac oedd efallai ddim yn hysbys i'r gwasanaethau felly oedd o bosibl ddim yn derbyn gofal a chymorth digonol. Roedd hyn yn cynnwys ymweld â chanol trefi i ymgysylltu â'r cyhoedd i geisio casglu gwybodaeth mewn perthynas â'r uchod. Llwyddwyd i gasglu manylion gan nifer sylweddol o bobl. Mae modd i ni nawr drefnu bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol yn ymweld â nhw a rhoi gwybodaeth iddyn nhw mewn perthynas ag atal troseddau.

Ymgysylltu yng Nghanol y Dref

Bu Swyddogion Cydlyniant Cymunedol a swyddogion Heddlu De Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd yng nghanol trefi drwy gydol Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Anogodd swyddogion sgyrsiau gyda'r cyhoedd a chafodd pecynnau gwybodaeth eu paratoi a'u dosbarthu i ddarparu addysg a gwybodaeth am Droseddau Casineb, llwybrau adrodd a gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Cyn-filwyr

Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu ein hymgysylltiad â chyn-filwyr ar draws y fwrdeistref. Ar ôl llwyddo i ennill cyllid o gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog fe wnaethon ni lansio Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr ledled Cwm Taf ym mis Ebrill 2019. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ystod o wasanaethau gan gynnwys budd-daliadau, gofal cymdeithasol i oedolion, cyllid, cyflogaeth a thai. Ers lansio'r gwasanaeth ym mis Ebrill 2019 mae'r gwasanaeth wedi derbyn dros 900 o atgyfeiriadau. Mae 91% o'r cyn-filwyr sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn ddynion, 72% wedi gwasanaethu yn y Fyddin Brydeinig a 64% rhwng

51 ac 80 oed. Yn ogystal â chymorth y Cyngor, rydyn ni wedi llwyddo i gyfeirio cyn-filwyr at lawer o sefydliadau gan gynnwys: GIG Cymru i Gyn-filwyr, y Lleng Brydeinig Frenhinol, Nyrsys Admiral, RNID a llawer yn rhagor.

Rydyn ni wedi adeiladu ar ein cefnogaeth i grwpiau cyn-filwyr lleol ar draws Rhondda Cynon Taf. Mae ein Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog yn mynychu grwpiau cyn-filwyr i roi cyngor a chymorth ac mae wedi llwyddo i sefydlu 2 grŵp cyn-filwyr newydd, Grŵp Taf Elái, yn Rhydfelen a Grŵp Cyn-filwyr Darran Las yn Aberpennar, yn ychwanegol at y cymorth presennol a ddarperir i Gyn-filwyr y Cymoedd yn Nhon Pentre.

Fe wnaethon ni gais llwyddiannus am gyllid gan raglen 'Forces for Change' Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog ac rydyn ni wedi gallu cynnal ein prosiect 'Veterans Connected' drwy gydol y pandemig. Drwy'r prosiect yma, mae modd i gyn-filwyr logi llechen symudol unrhyw bryd, yn rhad ac am ddim, drwy Wasanaeth Cyn-filwyr y Cyngor. Mae'r prosiect yma'n galluogi cyn-filwyr i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau gyda'r nod cyffredinol o leihau arwahanrwydd cymdeithasol. Darperir hyfforddiant i helpu cyn-filwyr i gadw mewn cysylltiad ac aros yn ddiogel ar-lein.

Yn 2021/22 byddwn ni'n ceisio gweithredu Cynllun Gwarant Cyfweliad ar gyfer cyn-filwyr a milwyr wrth gefn. Mae'r ymrwymiad ychwanegol yn dangos cefnogaeth y Cyngor i gymuned y Lluoedd Arfog ac yn anrhydeddu ysbryd y Lluoedd Arfog. Bwriad y Cynllun Gwarant Cyfweliad yw gwarant cyfweliad i gyn-filwyr a milwyr wrth gefn sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol a nodir yn y proffil swydd ar gyfer swyddi a hysbysebir. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog ddod â sgiliau, rhinweddau a buddion trosglwyddadwy gwerthfawr.

Cam Gweithredu 2 – Nodi nifer y ffoaduriaid sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf sydd ddim eto wedi'u cynnwys yn rhan o raglenni ymgartrefu.

Ni ddaeth unrhyw ffoaduriaid (ac eithrio'r rhai sy'n rhan o'r rhaglen ailsefydlu) yn hysbys i Garfan Cydlyniant Cymunedol y Cyngor yn 2020/21.

Cam Gweithredu 3 – Cynnal asesiad o anghenion cyflogaeth a fydd yn llywio pwyntiau gweithredu penodol sy'n ymwneud â phobl ifainc, anabledd ac ethnigrwydd.

Yn dilyn Canllawiau LIC ym mis Rhagfyr 2019, y blaenoriaethau yn ystod 2020/21 a lywiodd ein cynlluniau cyflawni Cymunedau am Waith a Mwy a'n cynlluniau cyflawni etifeddol oedd ymgysylltu â grwpiau penodol o gwsmeriaid. Y nod oedd cyrraedd targed LIC o gefnogi 20% o bobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Cyflawnwyd 17% ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r nifer wirioneddol o 60 yn fwy na'r nifer targed o 50 oherwydd bod y niferoedd a ymgysylltwyd gyda nhw'n uwch na'r targed a osodwyd. Grwpiau cwsmeriaid blaenoriaeth eraill oedd ffoaduriaid, cleientiaid o leiafrifoedd ethnig a chyn-droseddwy. Adolygwyd y ffordd roedden ni'n casglu ac yn

cofnodi'r wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy a hefyd yn rhoi arweiniad i staff ynghylch cofnodi datgeliadau cleientiaid o gyflyrau iechyd ac anabledau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Oherwydd y pandemig, cafodd ein holl staff cymorth cyflogaeth eu hadleoli am 6 mis i weithio mewn canolfan gymunedol, gan gynnig cymorth i bobl agored i niwed yn RhCT gyda siopa, codi presgripsiynau ac ati, a chafodd y cyfyngiadau parhaus effaith ar ein gallu i wneud cynnydd yn erbyn yr agenda yma.

Serch hynny, mae'r grwpiau yma o gwsmeriaid yn parhau i gael eu blaenoriaethu yn ystod 2020/21 gyda rhagor o gynnydd yn cael ei wneud.

Pobl Ifainc

Rydym wedi agor ein rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+) i bobl ifanc 16-24 oed ar draws RhCT doedd ddim yn gallu cael cymorth cyflogaeth gan unrhyw raglen arall a ariannwyd gan grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop neu drwy Wasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid RhCT. Yn flaenorol, roedd CaW+ yn rhoi blaenoriaeth i oedolion sy'n 25+ oed oherwydd y lefel isel o bobl ifainc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn RhCT a faint o gymorth a oedd eisoes ar gael. Serch hynny, oherwydd y pandemig, cynyddodd nifer y bobl ifainc sy'n cael eu hatgyfeirio o'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cymorth mentora felly fe wnaethon ni gynyddu'r cymorth a gynigir drwy CaW+ a oedd yn cynnwys mynediad i'n rhaglenni hyfforddiant hefyd.

Cynyddodd nifer y bobl ifainc a gyfeiriwyd at ein rhaglen fentora CaW hefyd. Mae hyn wedi golygu ein bod ni wedi rhagori ar ein targedau oes a osodwyd ar gyfer y rhaglen.

Fe wnaethon ni gais i ddod yn Borth Kickstart ar ran y Cyngor yn ystod mis Mawrth 2021 ac rydyn ni wedi gweithredu'r fenter yn llwyddiannus yn RhCT. Mae'r cynllun yn cynnig cyllid i fusnesau ddarparu lleoliadau gwaith â thâl chwe mis i bobl ifainc sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, am 25 awr yr wythnos ar isafswm cyflog. Yn ogystal â darparu hyfforddiant, dylai'r cynllun hefyd ddarparu cymorth ymarferol i'r person ifanc i chwilio am waith arall cyn i'r lleoliad ddod i ben.

Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig

Fe wnaethon ni ddenu niferoedd isel o gleientiaid o grwpiau lleiafrifoedd ethnig gyda 93% o gyfranogwyr yn nodi eu bod yn Wyn Prydeinig. Serch hynny, mae cyfranogwyr yn parhau i gael eu cefnogi gan ein rhaglenni cymorth cyflogaeth. Byddwn ni'n parhau i weithio ar ddenu mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig i'r rhaglenni.

Cam Gweithredu 4 – Proffilio cymunedau ar gyfer pob ardal llyfrgell er mwyn deall anghenion cwsmeriaid yn well.

Mae'r gwasanaeth wedi adnabod y prif ddalgylchoedd ar gyfer pob llyfrgell ac yna wedi cynnal proffil o bob ardal trwy ddefnyddio'r rhaglen 'Community Insights' sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- poblogaeth yn y wardiau sydd yn nalgylch y llyfrgell;
- gwybodaeth am blant sy'n byw mewn tlodi, pobl ddi-waith, pobl mewn ardaloedd difreintiedig, pobl anabl, pensiynewyr a grwpiau bregus eraill;
- gwybodaeth am nodweddion tai: mathau o anheddau, deiliadaeth tai, fforddiadwyedd, gorlenwi, oedran yr annedd a sefydliadau cymunedol;
- gwybodaeth am droseddau a gofnodwyd a chyfraddau troseddu;
- gwybodaeth am salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar fywyd, disgwyliad oes a marwolaethau, ac iechyd cyffredinol;
- rhagor o wybodaeth am gymwysterau, cyrhaeddiad disgyblion ac absenoldebau;
- gwybodaeth am swyddi pobl, cyfleoedd gwaith, incwm a busnesau lleol;
- gwybodaeth am drafnidiaeth, gwasanaethau pellter a gwasanaethau digidol;
- gwybodaeth am yr amgylchedd ffisegol, ansawdd aer a dosbarthiadau cymdogaethau.

O'r herwydd, mae dealltwriaeth dda o'r data o'r gwahaniaethau rhwng pob ardal lyfrgell. Gwneir defnydd hefyd o'r wybodaeth ddaearyddol sydd ar gael am nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r fwrdeistref.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r gwasanaeth yn proffilio niferoedd yr ymwelwyr, dosbarthu llyfrau, lawrlwythiadau a'r nifer o bobl sy'n bresennol mewn achlysuron ym mhob llyfrgell yn rhan o'u cyfarfodydd cyflawniad gyda changhennau ac, wrth gwrs, yn gwrando ar adborth gan staff a chwsmeriaid.

Mae'n amlwg fod y pandemig wedi cael effaith fawr ar feysydd darparu gan fod nifer yr ymwelwyr yn parhau i fod yn llawer is nag yr oedd o'r blaen. Er hyn, mae datblygiad canolfannau cymunedol a ehangwyd yn ystod y cyfnod yma a'r Rhwydweithiau Cymdogaeth a sefydlwyd wedi rhoi rhagor o wybodaeth i'r gwasanaeth am ba wasanaethau lleol i'w blaenoriaethau.

Cam Gweithredu 5 – Cynnal gwaith ymchwil yn rhan o asesiad anghenion y farchnad dai leol o ran y galw am anghenion tai ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wrth benderfynu ar y cymysgedd o gynlluniau/eiddo newydd sy'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio'r grant tai cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio'r dull yma er mwyn mynd i'r afael â'r galw am dai ymhlith pobl anabl, a fydd yn caniatáu cartref

sefydlog iddyn nhw i'w galluogi i ffynnu waeth beth fo'r rhwystrau maen nhw yn eu hwynebu. Bydd adolygiad llawn o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2022.

Cam Gweithredu 6 – Cynnal adolygiad o'r Cynllun Ceisio Cartref i sicrhau bod cwestiynau monitro cydraddoldeb yn briodol, er mwyn nodi anghenion penodol gyda phwyslais ar nodi anghenion tai ar gyfer pobl ifainc anabl.

Mae'r Gwasanaeth Strategaeth Tai a Buddsoddi yn y broses o ailfodelu'r broses o wneud cais i wasanaeth Ceisio Cartref, yn unol ag agenda digideiddio gwasanaethau'r Adran. Yn y broses yma bydd y cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys cwestiynau mewn perthynas â phobl ifainc anabl yn cael mynediad i dai marchnad agored sy'n fforddiadwy iddyn nhw yn unol â'r prawf fforddiadwyedd a gynhaliwyd yn ystod y cam ymgeisio.

Cam Gweithredu 7 – Gwella a datblygu sut mae gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaethau ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor yn cael ei chasglu a'i chofnodi.

Mae pecyn cymorth monitro cynhwysfawr wedi'i ddatblygu ar ôl casglu enghreifftiau o arfer gorau. Mae'r ffurflen newydd yn adlewyrchu geiriad arfer gorau cyfredol, trefn cwestiynau ac opsiynau ymateb ac yn ystyried gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig ni fu modd cychwyn ar y cynllun peilot arfaethedig yn adran Gwasanaethau Hamdden. Serch hynny, rydyn ni wedi gweithio gyda meysydd gwasanaeth unigol i wella'r ffordd maen nhw'n monitro eu data.

Mae data monitro cydraddoldeb yn ymwneud â phobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael ei gasglu gan ein cyfarwyddiaeth Gwasanaethau'r Gymuned yn rhan o:

- Rhestr y GIG o Bobl sy'n Eithriadol o Agored i Niwed;
- Ffurflenni cofrestru sy'n cael eu huwchlwytho i systemau Capita ac EBS;
- Adran monitro cydraddoldeb yr Arolygon Boddhad Cwsmeriaid;
- Systemau archebu theatr;
- Cyflwyno rhaglen Cymorth Cyflogaeth.

Cyflwynir y data i Lywodraeth Cymru ac mae'n rhan o'u dadansoddiad o ran a yw'r cyllid grant wedi'i ddefnyddio yn unol â gofynion y rhaglen.

Mae mwy o ddefnydd bellach yn cael ei wneud o ddata i ddadansoddi anghenion trigolion ac i asesu'r galw am wasanaethau nag o'r blaen.

Rydyn ni'n bwriadu lansio'r Pecyn Cymorth Monitro Cydraddoldeb ar draws y Cyngor yn 2021/22.

Cam Gweithredu 8 – Gwerthuso profiad pobl anabl sydd ar y gofrestr Ceisio Cartref (Homefinder) er mwyn deall unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu o ran cael gafael ar lety wedi'i addasu, a'i ddefnyddio, ac er mwyn nodi sut mae gwella'r broses o ganlyniad i hyn.

Roedd y cynllun Gosod Tai i fod i gael ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2020/21, ond rhwystrodd y pandemig y gwaith yma rhag cychwyn. Mae bellach wedi'i amserlennu i ddigwydd drwy gydol 2022/23 a bydd rhan o'r broses yn cynnwys grwpiau ffocws gydag unigolion sydd wedi gwneud cais i Ceisio Cartref i ddeall eu profiadau. Bydd tai wedi'u haddasu ar gyfer unigolion ag anableddau yn cael eu hadolygu'n helaeth gan fod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr sydd angen eiddo wedi'i addasu yn RhCT.


Yn ystod 2021 mae llawer o'r Garfan Dyrannu Tai wedi mynychu hyfforddiant i ddeall anghenion unigol sy'n amrywio o ragfarn anymwybodol, ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, atal hunanladdiad ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl.

Cam Gweithredu 9 – Gwella a datblygu trefnau monitro cwynion defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r cyfnod yma wedi bod yn heriol iawn a digynsail i'r Cyngor wrth iddo orfod defnyddio gwasanaethau yn benodol mewn ymateb i lifogydd a'r pandemig ac i reoli mentrau tymor hwy i roi cymorth i gymunedau a busnesau ar draws RhCT. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi'u cyflwyno ar draws pob maes gwasanaeth gyda staff yn gweithio o gartref. O ganlyniad, mae rhywfaint o'r datblygiad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Adborth i Gwsmeriaid wedi'i ohirio tra bod darpariaeth cymorth gymunedol a gwasanaethau rheng flaen wedi'u blaenoriaethu.

Mae meysydd gwasanaeth a Chydlynwyr Cwynion wedi parhau i reoli cysylltiadau cwsmeriaid a chwynion yn effeithiol drwy gydol y cyfnod er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd. Nodwyd bod rhai meysydd gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau i gysondeb cofnodi cwynion ac wedi lleihau nifer y cwynion sy'n parhau i fod ar agor am 6 mis am yr ail flwyddyn yn olynol o 2.4% yn 2019/20 i 2.2% yn 2020/21. Cafodd 61% o gwynion eu datrys o fewn 10 diwrnod gwaith o gymharu â 56% yn 2019/20. Er bod hyn yn welliant bach, dylid cydnabod pob maes gwasanaeth am barhau i reoli cwynion a disgwyliadau cwsmeriaid yn effeithiol yn ogystal â gwneud gwelliannau trwy'r flwyddyn anodd yma.

Themâu Allweddol ar gyfer Adborth Cwsmeriaid



| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|-----------------|-------------|-------------|-------------|
| • Cwynion | 730 | 778 | 750 |
| • Sylwadau | 44 | 123 | 132 |
| • Canmoliaeth | 239 | 254 | 221 |
| CYFANSWM | 1013 | 1155 | 1103 |

Cofnodwyd cyfanswm o 1103 o eitemau adborth ar gyfer 2020/21. Mae'r nifer yma'n gyson â'r 2 flynedd flaenorol, fodd bynnag, yn gyffredinol, bu gostyngiad sylweddol mewn cysylltiadau â'r Cyngor yn ystod y cyfnod yma a gallai hyn, ynghyd â'r ffaith bod rhai gwasanaethau ddim ar gael, fod wedi effeithio ar lefel yr adborth a dderbyniwyd.

Y dull mwyaf poblogaidd i gwsmeriaid gysylltu â'r Cyngor yw drwy'r wefan a chafwyd 66% o'r adborth drwy'r cyfrwng yma. Cynyddodd cyfathrebiadau e-bost o 8.5% yn 2019/20 i 20% ac mae modd priodoli'r cynnydd sylweddol yma i gyfyngiadau COVID-19 a'r ffaith bod dim modd galw i mewn i'r ganolfan gyswllt am gyfnod.

Doedd 37% o eitemau adborth ddim wedi'u dyrannu i giw ar adeg adrodd. Mae'r rhain yn achosion sydd wedi'u dyrannu'n anghywir ac maen nhw'n bennaf yn gwynion am Wasanaethau Rheng Flaen. Mae hyn yn gynnydd ar y ffigur ar gyfer 2019/20 ac mae modd ei briodoli i adleoli staff allweddol i swyddi eraill. Y gobaith yw y bydd dychwelyd staff i'w swyddi allweddol a datblygu system rheoli cofnodion newydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn gwella'r broses o ddyrannu eitemau adborth ar ôl ei rhoi ar waith.

ENGHREIFFTIAU O GWYNION A GWELLIANNAU I WASANAETHAU

| Maes y gŵyn | Manylion y gŵyn | Gwella Gwasanaethau |
|--------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Mynwentydd | Cwyn am olwg staff y fynwent. | Cadarnhawyd yr elfen yma o gŵyn a darparwyd gwisgoedd newydd i'r staff. |
| Canolfan Alwadau | Cwyn ynghylch cyngor a roddwyd gan gynghorydd ar sut i wneud cwyn. | Hyfforddiant i bob cynghorydd cyswllt ar gwynion i'w drefnu ar gyfer 2021/22. |
| Hamdden | Cwyn am ddiffyg dosbarthiadau yn ardal Cwm Rhondda. | Y rhaglen ddosbarthiadau i'w hadolygu a'i chynyddu - cyflawnwyd Hydref 2020. |
| Sbwriel ac Ailgylchu | Menyw anabl yn methu cael mynediad i risiau i/o'r tŷ gan fod casgliadau gwastraff yn rhwystro mynediad. | Hysbyswyd y criw ac mae man casglu amgen i'w drefnu. |
| Chynnal a Chadw Parciau | Cwyn am gyflwr y parc yn dilyn torri gwair. Roedd glaswellt yn cael ei dorri pan oedd y tir ddim mewn cyflwr addas gan greu mwd ar yr arwyneb. | Atgoffwyd yr holl staff o'u hyfforddiant a'r angen i sicrhau y cynhelir archwiliad safle i bennu addasrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud. |
| Cludiant | Cwyn ynghylch lleoliad amhriodol arhosfan bws a diffyg ymgynghori â'r trigolion yr effeithiwyd arnyn nhw. | Tynnwyd arwyddion ar gyfer yr arhosfan bws. Bydd lleoliad newydd yn cael ei ddewis yn amodol ar ymgynghoriad ehangach. |

Ar hyn o bryd mae system newydd yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer pob cwyn gan gwsmeriaid. Rydyn ni'n adolygu'r hen system ac yn gwneud gwelliannau i sicrhau ein bod ni'n casglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnon ni i ysgogi gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi cwynion sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb yr adroddir arnyn nhw ar wahân ynghyd â chwynion am y Gymraeg.

Cam Gweithredu 10 – Ar lefel leol, sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a darpariaeth cymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd o fewn eu cyrraedd yn well er mwyn eu hannog i gymryd rhan

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaeth y **Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid** atal yr holl waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifainc a chydweithwyr, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau symud. Roedd y sefyllfa'n gofyn am drawsnewid dulliau darparu'r gwasanaeth bron dros nos; llwyfannau rhithwir oedd yr unig opsiwn ar gyfer misoedd cyntaf y pandemig, dull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio gan lawer o bobl ifainc.

Arweiniodd ymgysylltiad blaenorol staff y Gwasanaeth ag arloesi gwasanaethau a'u hyder mewn defnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth am anghenion pobl ifainc at gynnig rhithwir cynhwysfawr o wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu i gynorthwyo pobl ifainc i brosesu a rheoli eu sefyllfa.

Roedd trawsnewid dulliau darparu gwasanaethau'n gofyn am ymgysylltiad gweithredol staff ar draws y gwasanaeth i achosi newid diwylliannol, gyda chefnogaeth rheolwyr a oedd yn hyderus i adael i staff gymryd risgiau pwylllog. Gan ganolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, rhoddwyd y dasg i'r garfan asesu anghenion a nodi gofynion, a ddefnyddiwyd wedyn i ailddyrranu adnoddau a datblygu cynlluniau wrth gefn. Arweiniodd eu profiad blaenorol o arloesi gwasanaethau a'u hyder i ddefnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth am anghenion pobl ifainc at gynnig gwaith ieuenctid rhithwir a oedd ar gael o fewn 72 awr i ddechrau'r cyfyngiadau symud. Mae data gwasanaeth yn dangos lefelau sylweddol o ymgysylltu ar-lein â defnyddwyr yn ogystal â'r cymorth 1:1 i dros 1000 o bobl ifainc a ddarperir o bell.

Ail-aliniodd y gwasanaeth ei gynnig ar-lein, gyda chynnydd sylweddol yn faint o wybodaeth, cyngor ac arweiniad, yn ogystal â gweithgareddau cyffredinol sydd ar gael i bobl ifainc drwy'r wefan (www.wicid.tv) a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, Instagram a YouTube). Cyflwynwyd y cynnig cynhwysfawr gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid gyda chyfraniadau sylweddol gan bartneriaid cyflawni, gan gynnwys timau iechyd rhywiol, sefydliadau camddefnyddio sylweddol a darparwyr a gomisiynwyd.

Fe wnaeth y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)** Chwarae rôl allweddol wrth ledaenu gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd yn ystod y pandemig. Hwn oedd y prif gyfrwng i Garfan Rhianta'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a'r Garfan Siarad a Chwarae gysylltu â theuluoedd a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Gwnaeth y GGD ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni am wybodaeth i roi cymorth iddyn nhw gael mynediad at ystod o wasanaethau gan gynnwys gofal plant, amserlenni cynlluniau chwarae, a rhaglenni rhianta. Roedd y cyswllt yma â thrigolion yn ganolog i allu'r gwasanaeth i barhau i ymgysylltu â

phlant, pobl ifainc, rhieni a theuluoedd yn ystod y cyfyngiadau symud. Chwaraeodd llwyfan cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rôl hollbwysig wrth ein galluogi i hysbysu rhieni a chynhalwyr/gofalwyr am newidiadau i drefniadau gofal plant, argaeledd Canolfannau Plant a Theuluoedd a ffynonellau cyngor a chymorth. Roedd hefyd yn ein galluogi i roi cymorth rhianta a lleferydd ac iaith yn rhithwir yn ogystal ag ennyn diddordeb plant mewn cyfleoedd chwarae rhithwir. Defnyddiwyd ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hefyd i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd o ran cyfyngiadau COVID-19, cau ysgolion, cludiant o'r cartref i'r ysgol, canolfannau profi i gefnogi blaenoriaethau gwasanaethau eraill y Cyngor megis Profi, Olrhain a Diogelu, Trafnidiaeth ac Addysg.

Dangosodd dadansoddiad o'r traffig ar-lein ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod y pandemig ymgysylltiad sylweddol â chymorth ar-lein:

Rhwng Ebrill 20 - Medi 20

- Gwyliwyd fideos magu plant ar-lein 38,523 o weithiau gan 32,690 o wylwyr unigryw
- Gwyliwyd fideos iaith gynnar ar-lein 44,287 o weithiau gan 36,040 o wylwyr unigryw.

Gwnaethpwyd newidiadau i ddarpariaeth y GGD yn 2020/21 gan gynnwys sicrhau cytundeb gan y Prif Weithredwr ar gyfer datblygu **Gwefan Teuluoedd RhCT**, a fydd yn cwmpasu dyletswydd statudol y Cyngor i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth trwy un porth hawdd ei ddefnyddio. Mae disgwyl i'r wefan gael ei lansio yng ngwanwyn 2022. Mae hyn yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o ran grymuso defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio'r offer a ddarperir i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Yn ystod y pandemig, cafodd y tri **Chanolfan Plant a Theuluoedd** eu hailbwrpasu at ddefnydd staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Defnyddiwyd y safleoedd i gwrdd â defnyddwyr y gwasanaeth pan doedd dim modd ymweld â phobl yn eu cartrefi. Roedd hyn yn caniatáu i gyfarfodydd allweddol gael eu cynnal mewn amgylchedd oedd yn ddiogel rhag Covid-19 lle na fyddai dulliau cyfathrebu rhithwir wedi bod yn ystyrllon neu na fydden nhw wedi lleihau'r risg i deulu/plentyn. Yn ogystal, roedd y gwasanaeth yn gallu cynnal dyletswyddau statudol megis ymweliadau â chanolfannau cyswllt, darparu gofal plant brys, cefnogi staff rheng flaen sy'n gweithio yn ystod y pandemig o ddiogelwch y canolfannau.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid wedi bod yn rhagweithiol yn **ymgyngori â phobl ifanc** drwy gydol y pandemig. O geisio barn yn ystod sesiynau

1:1 i arolygon ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae staff y Gwasanaeth wedi ymrwmo i wrando ar bobl ifainc i lywio datblygiadau'r gwasanaeth.

Cafodd **Fforwm Ieuenctid y Sir** ei atal yn ystod 2020/21 o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, llwyddodd y fforymau ardal i bontio dros dro i ddigwyddiadau ymgynghori a chyfranogi ystyrlon i lywio'r cynllunio ar gyfer adferiad. Gweithiodd swyddogion i drosglwyddo'r fforymau ieuenctid lleol corfforol i sesiynau ar-lein. Mae'r tri fforwm ieuenctid lleol wedi cyfarfod 8 gwaith i drafod y pryderon sydd gan bobl ifainc o ganlyniad i COVID-19 a'r cymorth yr hoffon nhw ei weld yn cael ei roi ar waith yn rhan o gynllun adfer y gwasanaeth. Yn ogystal, cyfarfu'r fforymau â, trafodwyd a chyfrannodd at:

- Ymgyrch Pleidlais@16 #yepsisthisyourtime
- “Sgwrs Lleisiau Ifanc” y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a datblygiad ei wefan i bobl ifainc
- Prosiect “Pencampwyr Cymru” Cymru Ddiogelach
- Prosiect Jigsaw, sy'n edrych ar sut mae merched a menywod wedi cael eu heffeithio gan COVID-19
- Prosiect Barddoniaeth, i greu cyfres o gerddi byrion i newid safbwyntiau negyddol pobl ifainc o fewn eu cymuned ehangach.

AMCAN 2 - Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arny'n nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau gweithredu yma isod:

Cam Gweithredu 1 – Adolygiad cynhwysfawr o'r broses recriwtio a dethol i gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr.

Mae cynllun gweithredu gwella recriwtio corfforaethol wedi'i ddatblygu gyda'r nod o wneud ein prosesau'n fwy hygyrch a deniadol i ymgeiswyr o bob cefndir. Mae'r cynllun gweithredu yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- dadansoddi swyddi a dylunio swyddi
- hysbysebu
- ceisiadau a dethol
- recriwtio ac ymsefydlu
- prosesau recriwtio amgen
- cyfathrebu a hyfforddi

- monitro a gwerthuso.

Yn anffodus bu oedi gyda'r gwaith yma. Roedd hyn yn wreiddiol oherwydd y pandemig gyda llawer o staff allweddol yn cael eu hadleoli i helpu gyda rhoi cymorth yn y gymuned, yna gweithredwyd system AD/Cyflogres newydd sydd wedi bod yn flaenoriaeth. Yn 2020/21 byddwn ni'n penodi Swyddog Graddedig i weithio ar feysydd o'r prosiect yma.

Cam Gweithredu 2 – Yn rhan o'r adolygiad o dai wedi'u haddasu, argymell bod y Cyngor yn ymrwymo i gynyddu nifer y cartrefi hygyrch a chartrefi sydd wedi'u haddasu sy'n cael eu hadeiladu yn yr ardal ar draws pob daliadaeth.

Mae'r Adolygiad o Dai wedi'u Haddasu yn rhoi datganiad sefyllfa ar y gwasanaethau presennol a ddarperir neu a alluogwyd gan y Cyngor mewn perthynas â thai wedi'u haddasu a darparu addasiadau. Mae Adolygiad drafft RhCT yn gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o gynyddu'r cyflenwad o gartrefi wedi'u haddasu a thai hygyrch sy'n cael eu hadeiladu ar draws pob deiliadaeth. Mae hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd i ddarparu llety wedi'i addasu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda datblygwyr preifat i ddeall y rhwystrau sy'n bodoli wrth ddatblygu byngalos wedi'u haddasu ar ddatblygiadau tai preifat a gweithredu Canllawiau Cynllunio Atodol newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rywfaint o dai preifat gael eu haddasu neu i fod yn hygyrch. Mae'r adolygiad hefyd yn argymhell gosod targed lleol ar gyfer nifer y tai wedi'u haddasu sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn yn y fwrdeistref, yn ogystal â gofyn am fyngalos Perchentyaeth Cost Isel yn rhan o'r cyfraniad tai fforddiadwy. Bydd yr Adolygiad o Dai Addasedig RhCT yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

Cam Gweithredu 3 – Rhoi'r prosiect Datblygu, Buddsoddi a Thyfu ar waith i wella deilliannau llesiant a chydraddoldeb ac amrywiaeth mewn dros 100 o fentrau bach a chanolig (BBaCh) yn Rhondda Cynon Taf.

Mae ein prosiect Cadw'n Iach yn y Gwaith (a arferai gael ei alw'n Datblygu Buddsoddi a Thyfu) yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'i nod yw rhoi cymorth i fusnesau bach a'u gweithwyr. Mae'r gefnogaeth yn cael ei chynnig heb unrhyw gost, ac mae'n canolbwyntio ar ystod arbennig o wasanaethau i wella iechyd a lles gweithwyr ac i helpu busnesau i reoli gweithwyr ag anabledau/cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Y deilliannau a gyflawnwyd

Yn ystod y prosiect, hyd at ddiwedd y cyfnod mae 100 o gyfranogwyr Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) wedi cofrestru ar gyfer y prosiect, mae 78 wedi bod trwy wiriadau cydymffurfio mewnol ac yn gymwys ar gyfer y prosiect, doedd 22 ddim yn cydymffurfio ac felly'n anghymwys ar gyfer y prosiect.

Derbyniodd 78 o BBaChau gymorth uniongyrchol gan y prosiect hyd at 31 Mawrth 2021, i annog newid diwylliannol mewn sefydliadau tuag at weithlu mwy amrywiol ac iach a mabwysiadu arferion gweithio hyblyg.

Dangosir yn y siart (Tabl 1a) y gweithgareddau a gyflawnwyd gyda BBaChau sydd wedi bod trwy wiriadau cydymffurfio mewnol ac sydd wedi mabwysiadu neu wella eu strategaethau a/neu eu systemau monitro.

Mae 56 wedi cwblhau'r prosiect ac wedi cofnodi deilliannau yn erbyn dangosyddion y prosiect, gadawodd 14 yn gynnar, ac mae 22 yn dal i gymryd rhan weithredol yn y prosiect.

Tabl 1a

| Deilliant | Cyfranogwyr |
|-------------------------------------------------------------------|--------------------|
| 01.Rhoi Polisi IaD AD ar gyfer Presenoldeb a Lles ar waith | 24 |
| 02.Polisi Rheoli Absenoldeb | 25 |
| 03.Polisi Cydraddoldeb ac Amrywioldeb | 25 |
| 04.System i Gefnogi Hyblygrwydd | 3 |
| 05.Asesiad i Fonitro Iechyd a Lles | 5 |
| 06.Cefnogaeth o ran Polisiâu / Gweithdrefnau Iechyd a Lles | 23 |
| 07.Monitro Gwaith ar Iechyd | 2 |
| 08.Hyfforddiant i Gefnogi Presenoldeb a Lles | 9 |
| Wedi gadael yn gynnar | 14 |
| Dim Deilliant wedi'i Gofnodi Eto | 22 |
| Cyfanswm | 78 |

Gweithgarwch Cyfranogwyr sy'n Gyflogeion

Yn ystod y prosiect, hyd at 31 Mawrth 2021, mae 301 o gyfranogwyr sy'n gyflogeion wedi cofrestru gyda'r prosiect.

Mae 359 o gyfranogwyr sy'n gyflogeion wedi cymryd rhan yn y prosiect hyd yma. O'r rhain, mae gwiriadau dilysu mewnol wedi'u cynnal ar 318 o gyfranogwyr sy'n gyflogeion sydd wedi cwblhau'u hymgysylltiad â'r prosiect, mae 146 wedi dychwelyd i'r gwaith, mae 79 wedi aros yn y gwaith. O'r 101 a adawodd yn gynnar, ar y cyfan cafodd gwaith ymyrraeth ei gynnal ac fe wnaeth cyfranogwyr ddychwelyd i'r gwaith neu aros yn y gwaith ond heb gwblhau'r gwaith papur ar ddiwedd y prosiect. Mae'r rhesymau dros atgyfeirio i'w gweld isod yn Nhabl 1b ac mae dadansoddiad o'r deilliannau a gofnodwyd i'w gweld yn Nhabl 1c.

Fe nododd 18% o gyfranogwyr sy'n gyflogeion anabledd ac fe nododd 82% gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Tabl 1b Rheswm dros Atgyfeirio

| Rheswm | % | Cyfranogwyr |
|---------------------------------------------|-------------|-------------|
| Cymorth yn y Gwaith | 25% | 76 |
| Cymorth i Ddychwelyd i'r Gwaith -28 Diwrnod | 17% | 50 |
| Cymorth i Ddychwelyd i'r Gwaith 28+ Diwrnod | 58% | 175 |
| Cyfanswm | 100% | 301 |

Tabl 1c Deilliant

| Canlyniad | % | Cyfranogwyr |
|---------------------------------------------------|-------------|-------------|
| Wedi gadael yn gynnar | 30% | 89 |
| Heb Ddychwelyd i'r Gwaith 4 wythnos ar ôl cwblhau | 6% | 19 |
| Wedi Aros yn y Gwaith | 17% | 52 |
| Dychwelyd i'r Gwaith - Gwahanol | 1% | 2 |
| Dychwelyd i'r Gwaith - Yr un peth | 45% | 136 |
| Dychwelyd i'r Gwaith 4 wythnos ar ôl cwblhau | 1% | 3 |
| Cyfanswm | 100% | 301 |

Tabl 1d Crynodeb o Nodweddion

| Dadansoddiad o Gyfranogwyr | 2020/2021 Cyfanswm Cronnus | |
|--------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|-------------|
| | Cyfanswm | % |
| Anabl/Anabledd | 57 | 17.9% |
| Cyflwr sy'n Cyfyngu ar Allu i Weithio (gan gynnwys MSD ac Iechyd Meddwl) | 261 | 82.1% |
| Benyw | 247 | 77.7% |
| Gwryw | 71 | 22.3% |
| Cyfrifoldebau Gofalu/Plant | 91 | 28.6% |
| Dros 54 | 124 | 39.0% |
| Mudwr/Nid o'r UE | 0 | 0.0% |
| Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 2 | 0.6% |
| Cyfanswm yr Atgyfeiriadau | 318 | 100% |

Cam Gweithredu 4 – Darparu gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd trwy amrywiaeth o fformatau gan ganolbwyntio'n benodol ar wella sut mae unigolion byddar a thrwm eu clyw yn cael gafael ar wybodaeth.

Rydyn ni'n cynnig mynediad aml-sianel at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor. Caiff hyn ei darparu drwy ystod o fformatau a chyfleusterau, gan gynnwys:

- Rhif Ffôn Testun/Llinell Cymorth Synhwyrdd wedi'i hyrwyddo drwy ein gwefan
- Dehonglwy'r Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael i fynychu apwyntiadau IBobUn
- dolen glyw ar waith wrth ddesgiau apwyntiadau IBobUn
- Ymholiadau wedi'u derbyn drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun
- Deunydd ar gael mewn fformatau amgen e.e. ffurflenni cais, dogfennau ymgynghori
- Browsealoud ar gael ar ein gwefan, yn darparu offer hygyrchedd fel:
 - Testun i lais (darllen yn uchel)
 - Masg sgrin
 - Chwyddhadur testun
 - Symleiddiwr tudalennau'r we
 - Gwneuthurwr MP3 (trosi cynnwys ar-lein i sain)
 - Geiriadur lluniau

Yn ystod 2020/21 parhaodd y gwaith tuag at fodloni safonau hygyrchedd y we Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) 2.1.

Cam Gweithredu 5 – Datblygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol.

Rydyn ni wedi parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl yn ein cymunedau a'n sefydliad i ddatblygu eu cymhwysedd digidol, eu hyder a, lle bo angen, rhoi mynediad at gymorth digidol cynorthwyol, fel eu bod nhw mewn gwell sefyllfa i gael mynediad at dechnoleg a'i defnyddio mewn modd cynhyrchiol.

Cafodd y rheiny a gafodd eu heffeithio gan y pandemig gymorth gan y garfan TGCh a Digidol, er enghraifft:

- Gan weithio gyda'n partneriaid, fe roeson ni gymorth i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg gyda datrysiad digidol i reoli'r rhaglenni brechu a darparu gwasanaethau canolfan gyswllt.
- Galluogi Datrysiad Digidol ar gyfer llwyfan i ddarparu Cymorth wrth Warchod i'n cymuned trwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a'r We.
- Rhoi ffordd fwy cydgysylltiedig ar waith i fusnesau gyflwyno cais a darparu tystiolaeth ar gyfer grantiau busnes COVID-19. Drwy roi'r ffurflenni cais a

gofynion eraill y grant ar-lein yn yr un broses, roedd modd i ni wneud penderfyniadau cyflymach a thaliadau cyflymach i fusnesau RhCT. Daeth dros 10,000 o geisiadau grant i law a chafodd gwerth tua £66 miliwn ei dalu mewn grantiau.

- Yn rhan o [Prosiect Trawsnewid digidol 'Hwb'](#) Llywodraeth Cymru, gwnaethom ni'n siŵr bod modd i bob ysgol gyflawni'r gofynion ar gyfer sgiliau digidol sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd drwy osod systemau TG newydd. Yn ogystal, buom yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddarparu dros 5,500 o liniaduron, llechi a mynediad i gysylltiad di-wifr i ddisgyblion heb fynediad gartref yn ystod y pandemig.
- Yn rhan o Strategaeth Ddigidol 2017-20 y Cyngor, ymgwymerwyd â gwaith yn barhaus i gefnogi'r agenda cynhwysiant, gyda TGCh a Digidol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi mentrau allweddol megis '[Dydd Gwener Digidol](#)' a [Defnyddio'r Rhyngwyd yn RhCT](#) ar draws ein llyfrgelloedd a chyda gwasanaethau i'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi.
- Er mwyn cefnogi mynediad i gynhwysiant digidol, mae Cysylltiad Di-wifr Cyhoeddus AM DDIM ar gael mewn tua 90 o adeiladau'r Cyngor ac adeiladau cymunedol a hefyd yn ein [Canol Trefi](#) allweddol. Mae cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus ar gael mewn sawl lleoliad fel Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a Chanolfannau Cymuned. Bydd pob cyfrifiadur yn y Llyfrgelloedd yn cael eu hadnewyddu gyda dyfeisiau newydd yn ystod 2021.
- Mae ein gwefan yn cynnwys elfennau sy'n cefnogi pobl sydd â nam ar eu golwg, caiff cynnwys ei sganio am wallau a chaiff adroddiadau eu paratoi i hwyluso'r gwaith cywiro. Mae'r gwaith i sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â [Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We \(WCAG\) 2.1 AA](#) yn parhau. Mae sgôr hygyrchedd gwefan ein Gwefan Gorfforaethol wedi cynyddu o 68% i 86%.
- Mae Gwasanaethau Ymgynghorwyr y Ganolfan Gyswilt yn hygyrch i gwsmeriaid.

Cam Gweithredu 6 – Cryfhau'r prosesau Ceisio Cartref (Homefinder) presennol fel eu bod yn ystyried arfer gorau mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd hyn yn rhan o adolygiad y Cynllun Gosod Tai gan y bydd yr arferion gweithredu hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion y cynllun.

Yn 2020/21 daeth cynrychiolydd o'r gwasanaeth Ceisio Cartref i'r Fforwm Anabledd i ddysgu am yr heriau sy'n wynebu unigolion yn yr ardal.

Dechreuodd Ceisio Cartref gynnal 'cymorthfeydd' yn Llyfrgell Aberdâr unwaith yr wythnos. Roedden nhw'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb i unigolion a oedd yn dymuno gwneud ymholiadau'n uniongyrchol gydag ymgynghorydd mewn man hygyrch. Y nod oedd ehangu'r gwasanaeth yma ar draws y fwrdeistref, ond yn anffodus roedd rhaid cau nifer o'r swyddfeydd am gyfnod o ganlyniad i'r pandemig. Rydyn ni'n gobeithio ailgyflwyno'r gwasanaeth yma pan fydd cyfyngiadau'n caniatáu.

Nid yn rhan o'r broses Ceisio Cartref, ond o fudd i'r Garfan oedd y fraint o weithio gyda pherson ifanc ag anghenion ychwanegol o Goleg y Cymoedd ar leoliad dydd un prynhawn yr wythnos. Roedd y person ifanc yn gweithio yn rhan o'r garfan ac fe enillodd brofiad gwaith a magu annibyniaeth, a chafodd y garfan ddealltwriaeth o'r heriau roedd y person ifanc yma'n eu hwynebu yn ei fywyd bob dydd.

Cam Gweithredu 7 – Datblygu ymhellach dull cynhwysol tuag at brentisiaethau.

Mae ein **cynllun prentisiaeth** wedi ennill gwobrau. Rydyn ni wedi addasu a newid ein hasesiadau prentisiaid i gynnwys dull 2 lefel, gan roi cyfle cyfartal i unigolion ag anghenion dysgu gwahanol ac yn unol â'r swydd maen nhw'n gwneud cais amdani. O ganlyniad rydyn ni wedi penodi nifer o brentisiaid ag anghenion ychwanegol.

Mae ein rhaglen bartneriaeth gyda Choleg y Cymoedd, Elite ac Anabledd Dysgu Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r disgyblion o garfanau **Porth Cyflogaeth** 2020 a 2021. Rydyn ni wedi darparu ystod o sgiliau gwaith ond yn sgil cyfyngiadau'r pandemig mae'r rhain wedi'u darparu ar-lein yn bennaf. Nod y rhaglen yw codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr sydd yn eu blwyddyn academiaidd olaf yn y Coleg o gyfleoedd gyrfa yn y dyfodol. Mae hyn wedi cael ei gyflawni trwy hwyluso ymweliadau gan gyflogwyr a rhoi cyfle iddyn nhw gael lleoliadau Profiad Gwaith.

Llwyddodd Harry o garfan Porth Cyflogaeth 2020 i sicrhau Prentisiaeth gyda Vision Products yng Nghyngor RhCT, ac fe enillodd wobr Intern y Flwyddyn Porth Cyflogaeth yn Achlysur Dathlu'r Garfan Materion Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant yn 2021. Mae modd i chi wyllo stori Harry yma:

[Porth Cyflogaeth, Intern â Chefnogaeth y Flwyddyn 2021 - YouTube](#)

Cam Gweithredu 8 - Cryfhau'r broses graffu ar gyfer y broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

Cafodd y ddogfen Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ei hadolygu i ystyried gofynion y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol. Yn rhan o'r adolygiad yma roedd cyfle i gryfhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Cafodd dull cyfunol ei ddefnyddio i ail-lansio canllawiau'r asesiad effaith. Yn ogystal, cafodd proses newydd 'Y Panel Adolygu' ei sefydlu er mwyn cryfhau'r gwaith o graffu

asesiadau effaith a gwblhawyd. Mae uwch swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yn eistedd ar y Panel Adolygu i adolygu'r asesiad effaith, gan wirio bod data a thystiolaeth berthnasol wedi'u defnyddio i lywio penderfyniadau. Cafwyd cytundeb i benodi dadansoddwr data i gefnogi dod o hyd i'r dystiolaeth berthnasol ar gyfer dogfennau asesu effaith. Mae fframwaith adrodd y Cabinet hefyd wedi'i ymestyn i wella gwaith craffu ar asesiadau effaith.

Cafodd nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth eu cynnal gyda meysydd gwasanaeth i amlinellu gofynion dyletswyddau o ran cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. Cafodd y Panel Adolygu ei lansio yn Ebrill 2021, felly bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Cam Gweithredu 9 – Annog pobl i fanteisio ar yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim drwy adolygu modelau darparu gwasanaeth a chael strategaeth farchnata effeithiol.

Mae rhaglen moderneiddio ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wedi cynnwys ailddylunio ceginau a ffreuturau ysgolion uwchradd er mwyn gwella'r profiad bwyta a hyrwyddo ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y buddsoddiad mewn cyfleusterau ysgol yn cael effaith sylweddol ar y niferoedd sy'n bwyta prydau ysgol. Mae gwaith cynllunio wedi dechrau ar roi'r Cynnig Prydau Ysgol am Ddim Cynradd i Bawb ar waith. Mae'r gwasanaethau arlwygo ar hyn o bryd yn adolygu'r ddarpariaeth prydau presennol ym mhob un o'n hysgolion cynradd ac arbennig, gan asesu'r offer cegin a'r cyfleusterau storio er mwyn amcangyfrif y cynnydd yn nifer y prydau a'r gofynion ychwanegol ar gyfer staff, offer, storio a manau bwyta.

Mae gwasanaeth brechwast ar waith yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd er mwyn annog yr holl ddisgyblion i fwyta brechwast iach, a helpu hyrwyddo'r arfer o gyrraedd yr ysgol yn gynnar. Caiff lwfans PYDd disgyblion ei ddiweddarau ar ddechrau bob diwrnod ysgol er mwyn eu galluogi i gael y gwasanaeth hwn.

Mae dewis helaeth o fwydlenni wedi'u datblygu er mwyn cynorthwyo niferoedd i fanteisio ar PYDd. Mae bwydlenni ysgolion uwchradd wedi'u creu gydag ystod eang o gynhyrchion, gydag opsiynau prisiau hyblyg sy'n galluogi disgyblion i brynu eitemau bwyd yn ystod brechwast, egwyl y bore ac amser cinio. Yn ogystal, mae RhCT yn darparu bwydlenni pwrpasol ar gyfer disgyblion â gofynion o ran alergenau, mae prif gwrs llysieuol ar gael bob dydd ym mhob ysgol, ac mae bwydlen feگان wedi'i chreu hefyd sydd ar gael i bob disgybl ar gais.

Mae gwasanaethau cinio rhanedig wedi'u rhoi ar waith mewn nifer o ysgolion. Mae'r rhain yn annog disgyblion i fwyta cinio iach drwy leihau ciwiau a chreu amgylchedd tawel, cymdeithasol.

Mae system gwneud taliadau ar-lein wedi'i rhoi ar waith ym mhob ysgol i leihau'r angen i ddisgyblion ddod ag arian parod i ysgolion. Mae hyn yn lleihau bwlio ac yn sicrhau bod arian a ddarparwyd i ddisgyblion yn cael ei wario ar frechwast neu ginio; mae defnyddio systemau heb arian yn sicrhau hefyd nad yw disgyblion sy'n derbyn PYDd yn cael eu hadnabod.

Cam Gweithredu 10 – Defnyddio dull strategol wrth ystyried canol ein trefi, a fydd yn elwa ar fuddsoddiad er mwyn sicrhau amgylchedd deniadol a hygyrch i fusnesau lleol, siopwyr, trigolion ac ymwelwyr.

Mae Cynllun Darparu Gwasanaeth y Gyfadran Ffyniant a Datblygu yn nodi nifer o flaenoriaethau gwasanaeth allweddol ar gyfer 2020/21, ac roedd un o'r rhain yn cynnwys:

Moderneiddio canol ein trefi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ganolfannau i'r gymdeithas fod yn rhan ohonyn nhw, yn llefydd i gyfleoedd ar gyfer yr economi leol fodoli ac i wasanaethau gael eu darparu. Trwy gydnabod eu rôl newidiol o ganolfannau manwerthu i gyrchfannau cymdeithasol a'u helpu i addasu i newidiadau o ran disgwyliadau economaidd a disgwyliadau cwsmeriaid.

Drwy gefnogi cyflawniad gweithgarwch economaidd lleol wrth hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau a rhanddeiliaid wrth gyflawni prosiectau a mentrau newydd ar draws canol ein trefi, ac wedi ceisio eu barn ar roi mesurau dros dro priodol ac amserol ar waith. Mae'r mesurau yma'n adeiladu ar y dull "Arwyddion a Llinellau" a roddwyd ar waith yn 2019/20 ac yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd yn ystod y pandemig COVID-19 parhaus.

Mewn ymateb i'r canllawiau newidiol sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru i helpu i liniaru'r risg i ddiogelwch y cyhoedd gan y pandemig COVID-19 parhaus, mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau dros dro ar waith a thynnu rhai mesurau yn ôl lle bo'n briodol ar draws ein canol trefi, gan gynnwys:

- lle bo angen, ailosod saethau cyfeiriadol ar y llwybrau troed i ddangos i ba gyfeiriad y dylai pobl gerdded yng nghanol trefi.
- lle bo'n briodol symud rhai celfi stryd o ganol trefi, ac yna'u hailosod.
- gosod arwyddion mewn arosfannau / llochesi bysiau ledled canol trefi sy'n atgoffa pobl am fesurau diogelwch COVID-19.
- gosod arwyddion ar finiau sbwriel yng nghanol trefi sy'n atgoffa pobl am y mesurau cadw pellter cymdeithasol.
- dosbarthu canllawiau mewn da bryd i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng nghanol trefi (a'r ardaloedd manwerthu llai ehangach) yn amlinellu'r cyfrifoldeb sydd arnyn nhw i roi'r mesurau diogelu priodol ar waith a'u hadolygu.

- gweinyddu Grant COVID-19 Llywodraeth Cymru i fusnesau, gan alluogi newidiadau y tu mewn a thu allan i wneud y defnydd gorau o ofod y tu allan. Cafodd Grant Tasglu'r Cymoedd tebyg hefyd ei ymestyn i fusnesau ar draws 28 o ardaloedd manwerthu llai yn y fwrdeistref sirol.
- gosod arwyddion mewn mannau allweddol ledled canol trefi yn hyrwyddo'r neges i siopa'n lleol wrth gadw neges ddiogelu COVID-19 gref trwy ddull “dwylo, wyneb, pellter”.

Wrth roi'r mesurau uchod ar waith mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â nifer o randdeiliaid gan gynnwys busnesau a grwpiau cynrychioliadol canol trefi, Aelodau Etholedig a Fforwm 50+ RhCT. Mae hyn yn ystyried effaith mesurau o'r fath ar hygyrchedd a symudiad cerddwyr ac mae wedi galluogi'r Cyngor i ymateb mewn modd priodol ac ystyriol. Mae hefyd wedi galluogi'r Cyngor i roi cyngor ac arweiniad priodol mewn da bryd i fusnesau, er mwyn diogelu gweithwyr a chwsmeriaid.

Fe wnaethon ni gyflwyno ymgyrch “siopa'n lleol” gynhwysfawr i annog defnyddwyr i ddefnyddio busnesau lleol lle bo modd. Cafodd yr ymgyrch ei chyflwyno drwy ddull cymysg. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu fideos i arddangos y cynnyrch a'r gwasanaethau amrywiol sydd ar gael yng nghanol trefi Rhondda Cynon Taf, hyrwyddo trwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â gosod baneri mewn lleoliadau allweddol yng nghanol trefi ac o'u cwmpas. Cafodd yr ymgyrch ei hymestyn hefyd i gynnwys ymgyrch â mwy o ffocws i gyflwyno'r neges i “siopa'n lleol adeg y Nadolig”.

Fe wnaethon ni gynnal Ogofâu Siôn Corn yng nghanol trefi a oedd yn galluogi unigolion a theuluoedd i gael profiad cadarnhaol o fewn amgylchedd wedi'i reoli a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau COVID-19. Daeth llawer o bobl i'r ogofâu ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol.

Yn dilyn lansiad llwyddiannus o'r **Cynllun 'Hop, Shop and Save'** yn 2019, mae'r Cyngor wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Stagecoach De Cymru i ddatblygu a hyrwyddo'r cynllun ymhellach. Mae'r cynllun yn galluogi pobl sy'n teithio ar fysiau Stagecoach i gael gostyngiad ar amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau ar draws canol trefi RhCT, ar ôl iddyn nhw ddangos tocyn bws dilys. Mae'r cynllun ar gael i holl drigolion RhCT, gan gynnwys y rhai sydd â “thocyn bws”. Gan fod llawer o bobl hyn a phobl anabl yn dibynnu ar docyn bws i deithio i allu cyrraedd canol trefi, mae'r cynllun wedi parhau i fod yn boblogaidd.

Rydyn ni wedi parhau i gydweithio â grwpiau busnes a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ystod o brosiectau sy'n gwella edrychiad a theimlad canol ein trefi. Mae'r rhain yn cynnwys gosod meinciau cyhoeddus a dysglau plannu blodau newydd ledled canol

tref Aberdâr a datblygu darn o dir gerllaw Theatr y Parc a'r Dâr yn Nhreorci i ddarparu ardal gyhoeddus a chymunedol ychwanegol.

Gan ddefnyddio Cronfa Busnes Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi gweithio ar y cyd â grwpiau busnes canol trefi i ddatblygu a chyflawni amrywiaeth o brosiectau sydd â'r nod o wella a hyrwyddo'r hyn y mae canol y dref yn ei gynnig. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu fideos hyrwyddo sy'n benodol i ganol y dref, cyfleuster sy'n rhoi cyfleoedd i brofi masnachu a threialu darpariaethau casglu data canol tref amgen i lywio penderfyniadau strategol yn y dyfodol.

AMCAN 3 – HYRWYDDO CYMUNEDAU DIOGEL

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Mae'r cynnydd tuag at y camau gweithredu yma wedi'u hamlinellu isod.

Cam Gweithredu 1 - Adolygu, datblygu ac ail-weithredu'r Strategaeth Troseddau Casineb.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn diffinio Trosedd Casineb fel hyn:

“'hate crime' can be used to describe a range of criminal behavior where the perpetrator is motivated by hostility or demonstrates hostility towards the victim's disability, race, religion, sexual orientation or transgender identity.

These aspects of a person's identity are known as 'protected characteristics'. A hate crime can include verbal abuse, intimidation, threats, harassment, assault and bullying, as well as damage to property. The perpetrator can also be a friend, carer or acquaintance who exploits their relationship with the victim for financial gain or some other criminal purpose.”

Yn ystod 2020, cafodd 465 trosedd casineb eu cofnodi yn ardal Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful).

Mae'r tablau isod yn dangos y dadansoddiad ar draws y 5 nodwedd, ardal a mis:

Tabl 1a. Troseddau Casineb yn ôl nodwedd

| | |
|----------------------|-----|
| Anabledd | 64 |
| Hil | 271 |
| Crefydd | 15 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 98 |
| Trawsryweddol | 17 |

Tabl 1b. Troseddau Casineb fesul ardal

| | |
|----------------|-----|
| Cwm Rhondda | 117 |
| Cwm Cynon | 90 |
| Taf-elái | 134 |
| Merthyr Tudful | 105 |

Tabl 1c. Troseddau Casineb fesul mis (2019)

| | |
|------------|----|
| Ionawr | 28 |
| Chwefror | 25 |
| Mawrth | 33 |
| Ebrill | 31 |
| Mai | 38 |
| Mehedin | 57 |
| Gorffennaf | 48 |
| Awst | 43 |
| Medi | 53 |
| Hydref | 39 |
| Tachwedd | 31 |
| Rhagfyr | 20 |

Mynd i'r afael â Throseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf

Rydyn ni wedi parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru. Wrth i ni gynyddu ein gwaith ar y cyd, mae wedi ein galluogi i sicrhau bod trigolion yn cael ymateb cadarnhaol a chyson.

Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb (NHCAW)

Cafodd cyfres o 5 fideo eu cynhyrchu, un ar gyfer pob nodwedd warchoddedig. Cafodd rhain eu rhyddhau ar y cyfryngau cymdeithasol (un y dydd) yn ystod NHCAW ar sianeli'r Cyngor, Cyngor Merthyr Tudful a Heddlu De Cymru (Facebook a Twitter) yn ogystal â'u gwefannau priodol. Cafodd y fideos eu rhannu hefyd gan nifer o allfeydd eraill gan gynnwys tudalennau cyfryngau cymdeithasol yr orsaf radio lleol. Cafodd y fideos ymateb gadarnhaol iawn gan y cyhoedd, wrth i filoedd o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol eu gwyllo trwy gydol yr wythnos.

- Hil – <https://youtu.be/BXgT19Echy4>
- Anabledd – <https://youtu.be/V147ZhuDcgc>
- Hunaniaeth Rhywedd – <https://youtu.be/8SqsTGloKZc>
- Cyfeiriadedd Rhywiol – <https://youtu.be/leS9vj20qKI>
- Crefydd – <https://youtu.be/Ugy6NkANnDY>

Cafodd Swyddogion Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf a Swyddogion Cymunedau Diogel Heddlu De Cymru gyfweiliadau ar yr orsaf radio leol GTFM i hyrwyddo NHCaw er mwyn addysgu gwrandawyr am Droseddau Casineb a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am sut i roi gwybod am achosion o Droseddau Casineb a ble i gael cymorth.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, cafodd dwy sesiwn ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb eu cynnal ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd lleol.

Cam Gweithredu 2 – Adolygu'r dull presennol o fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.

Roedd bwriad cyflwyno hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern (gan gynnwys hyfforddi'r hyfforddwr) ym mis Ebrill 2020 gan BAWSO. Yn anffodus bu'n rhaid aildrefnu hyn i ddyddiad diweddarach. Mae caethwasiaeth fodern yn parhau i gael ei drafod gan y Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol rithwir.

Cam Gweithredu 3 – Yn rhan o Strategaeth Llesiant yr Adran Addysg, byddwn ni'n datblygu rhaglen i ysgolion ynghylch codi ymwybyddiaeth o gamdrin emosiynol mewn perthynas.

Mae'r Uwch Seicolegydd Addysg dros Les yn gweithio gyda Barnardos, yr Heddlu a chynrychiolwyr o'r byd Addysg i ddatblygu rhaglen o gymorth ar gyfer ysgolion. Bydd gwaith datblygu'r prosiect yn parhau'r flwyddyn nesaf.

Cam Gweithredu 4 – Treialu model PERMA mewn ysgolion uwchradd.

Wedi'i ymgorffori mewn Seicoleg Gadarnhaol, mae model PERMA Seligman yn cael ei gynnig yn fframwaith effeithiol ar gyfer deall a hyrwyddo lles. Ar ben hynny, mae offer PERMA yn cael eu cynnig yn fesurau hawdd eu deall sydd â modd asesu dimensiynau lles amrywiol disgyblion a chyfrif am y ffaith fod lles yn codi a gostwng dros amser.

Yn ôl model PERMA Seligman:

- Mae **Emosiynau Cadarnhaol (Positive Emotions)** yn cyfeirio at deimladau o hapusrwydd hedonig (h.y. teimlo'n llawen, yn fodlon, ac yn hwyliog).
- Mae **Ymgysylltu (Engagement)** yn cyfeirio at y cysylltiad seicolegol â gweithgareddau neu sefydliadau (e.e. bod â diddordeb, bod wedi llwyrfeddiannu ac wedi ymgysylltu â bywyd).
- Mae **Perthynas (Relationships)** yn cynnwys teimlo'n integredig yn gymdeithasol, teimlo bod eraill yn gofalu amdanoch chi ac yn eich cefnogi, a theimlo'n fodlon â'ch cysylltiadau cymdeithasol.
- Mae **Ystyr (Meaning)** yn cyfeirio at y gred bod eich bywyd yn werthfawr i chi, a theimlo bod cysylltiad gyda chi â rhywbeth sy'n fwy na chi.
- Mae **Cyflawniad (Accomplishment)** yn golygu gwneud cynnydd tuag at eich amcanion, teimlo bod modd i chi ymgymryd â gweithgareddau dyddiol, a meddu ar ymdeimlad o gyflawniad.

Mae Seligman yn cynnig bod y pum piler hyn yn cyfrannu at les unigolion.

- Mae 80 o ysgolion bellach wedi'u cofrestru ac wedi'u sefydlu i ddefnyddio'r offer PERMA.
- Mae sesiynau hyfforddi rhithwir 2 awr o hyd wedi'u cynnal gyda phob ysgol i gwblhau'r broses gofrestru ac i ddangos a thrafod sut mae modd defnyddio'r offer yn eu lleoliad.
- Mae fideos hyfforddi a gafodd eu recordio ymlaen llaw hefyd wedi'u cynhyrchu a'u huwchlwytho i roi cymorth i ysgolion wrth ddefnyddio'r offer.
- Bydd hyfforddiant Ysgol Gyfan yn cael ei gyflwyno trwy weminar a chynnwys e-ddysgu sydd wedi'i recordio ymlaen llaw.
- Mae canllawiau defnyddwyr a phhecynnau cychwyn wedi'u dosbarthu i bob ysgol ar ôl iddyn nhw gofrestru.
- Mae gwerthusiad o hyfforddiant cychwynnol wedi'i gynnal gyda phob ysgol i nodi eu hargraff nhw o'r offer a sut maen nhw'n bwriadu eu defnyddio yn eu lleoliad.

Cam Gweithredu 5 – Cryfhau sut mae data ar gyfer achosion o fwlio mewn ysgolion yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi.

Mae Polisi Gwrth-fwlio'r awdurdod lleol ar gyfer Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad wedi'i ddiwygio yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Hawliau, Parch a Chydraddoldeb. Mae polisi RhCT sydd wedi'i ddiweddarau yn egluro ac yn cryfhau disgwyliadau a gweithdrefnau mewn perthynas â chasglu data a

dadansoddi bwlio – yn enwedig mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig. Dyma gyfrifoldebau'r ALL yn y canllawiau diwygiedig:

- Gwerthuso'r data gan ysgolion, nodi patrymau a rhoi gwybodaeth i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod wedi paratoi i ymateb i unrhyw dueddiadau.
- Canolbwyntio'n benodol ar gofnodi achosion sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn gywir er mwyn gallu monitro patrymau ac atal gwahaniaethu er mwyn sicrhau cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Monitro data cydraddoldeb a rhoi cyngor i ysgolion ar dueddiadau lleol.

Rydyn ni'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu adroddiad o ddigwyddiadau bwlio i ni bob tymor. Rydyn ni'n monitro'r adroddiadau ac yn darparu cymorth ac yn herio ysgolion i fynd i'r afael â materion. Y cam nesaf yw rhoi hyfforddiant a chyngor i wella ymarfer. Ymhlyg yn y polisi sydd wedi'i ddiweddarau mae'r angen am weithdrefnau adolygu a monitro mwy rheolaidd yn yr ysgolion. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn darparu dogfen i bob ysgol ei defnyddio ar y system SIMS a fydd yn cefnogi'r gwaith o gasglu'r data angenrheidiol. Mae'r polisi'n datgan:

Dylai cyrff llywodraethu fonitro:

- trosolwg o gofnodion achosion o fwlio yn eu lleoliad er mwyn gweld pa mor hir, ar gyfartaledd, mae'n cymryd i ddatrys problemau
- y cyfraddau ailddigwydd
- os yw disgyblion sydd wedi adrodd am achosion o fwlio o'r farn eu bod wedi cael deiliant boddhaol
- os yw tueddiadau'n dod i'r fei neu grwpiau'n darged ar gyfer rhagfarn
- os oes achosion ar-lein sy'n awgrymu bod angen gwneud gwaith gyda'r disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid a staff er mwyn mynd i'r afael â mathau newydd o fwlio
- cyfraddau absenoldebau
- bod y data sy'n cael ei gasglu'n aml yn glŷn ag achosion wedi'u hadrodd yn dangos cynnydd tuag at yr amcanion cydraddoldeb.

Cam Gweithredu 6 - Datblygu ymhellach y 'rhaglen ryddid' gyda Chymorth i Fenywod i ddeall yn well anghenion penodol y rheiny sydd wedi dioddef trais domestig ac sy'n perthyn i grwpiau sydd ddim wedi'u cynrychioli'n ddigonol.

Y Cynllun SAFE

Mae nodi achosion o gam-drin domestig ar y cyfle cyntaf yn allweddol i gadw pobl yn ddiogel.

Mae'r cynllun SAFE yn darparu gwasanaeth hygyrch yn y gymuned leol i roi cymorth i'r rhai sydd wedi profi trais domestig neu sy'n ei brofi ar hyn o bryd ac sydd wedi'u nodi fel risg isel i ganolig trwy asesiad risg neu Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (PPN). Nod y cynllun yw cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddiodefwyr trais domestig drwy roi strategaethau atal ac ymyrraeth gynnar ar waith. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y cynllun yn meithrin gallu trwy gynyddu sgiliau'r defnyddiwr gwasanaeth i nodi'r arwyddion rhybudd cynnar o ymddygiadau camdriniol o fewn perthnasoedd presennol neu yn y dyfodol, cynyddu eu hyder a'u hunan-barch a lleihau unigedd.

Mae'r cynllun yn cyflawni hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys;

- Cymorth / eiriolaeth un-wrth-un (tymor byr)
- Sesiynau sgiliau bywyd gan gynnwys rhaglen ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a magu hyder.
- Llwybrau atgyfeirio uniongyrchol i asiantaethau cymorth eraill.
- Mynediad at gyngor cyfreithiol a chymorthfeydd rheoli dyled.

Mae'r cynllun yn galluogi diodefwyr trais domestig i gael mynediad at wybodaeth a chymorth mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol. Ei nod yw lleihau'r risg i'r unigolyn, cynyddu diogelwch, atal troseddau pellach, a chadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain – gan dorri'r cylch cam-drin domestig.

Rhaglenni grŵp

Ar ddechrau chwarter 1 yn 2020 effeithiodd pandemig COVID-19 ar y ffordd y gallai'r cynllun ddarparu ei wasanaethau. Roedd yr addasiadau yn cynnwys gostwng sesiynau wyneb yn wyneb a gwaith grŵp.

O ganlyniad, cafodd yr holl sesiynau addysgol yn ymwneud â cham-drin domestig sy'n ystyried trawma eu cynnal ar-lein. Roedd y rhain yn cynnwys y rhaglen ryddid, pecyn cymorth adfer, 'gobaith tuag at adfer' a sesiynau lles.

Cafodd 213 o ddiodefwyr eu cefnogi'n gyfan gwbl i gyflawni rhaglenni addysgol yn ymwneud â cham-drin domestig.

Dyma mae'u hadborth yn dweud wrthyn ni:

- Dywedodd 95% eu bod nhw'n gallu adnabod yr arwyddion rhybudd cynnar o ymddygiad camdriniol a'u bod nhw'n teimlo fod ganddyn nhw mwy o allu i gadw'n ddiogel yn eu perthnasoedd.
- Dywedodd 89% eu bod nhw'n teimlo mwy o hyder yn eu gallu i greu amgylchedd diogel iddyn nhw eu hunain a'u teulu.

- Dywedodd 100% eu bod nhw'n gwybod mwy am yr asiantaethau priodol y gallen nhw gael cymorth oddi wrthyn nhw ar gyfer eu lles emosiynol a chorfforol.
- Dywedodd 90% eu bod nhw'n teimlo bod eu hyder a'u hunan-barch wedi cynyddu o ganlyniad i fynychu'r sesiynau.

Cymorth unigol

Yn ystod y flwyddyn roedd angen sesiynau cymorth unigol ychwanegol ar 322 o ddiodefwyr. Yn ystod y sesiynau hyn roedd modd i'n carfan gefnogi diodefwyr i nodi angen a lleihau risg trwy gynnal asesiadau risg a chynllunio diogelwch.

Cymorthfeydd

Drwy gydol y flwyddyn roedd angen cyngor cyfreithiol ar 74 o ddiodefwyr ynghylch eu sefyllfaoedd. Roedd y cynllun yn eu cefnogi nhw i gael mynediad at ymgynghoriadau 20 munud am ddim gyda chyfreithiwr yn eu hardal leol.

Data Monitro Cydraddoldeb

Mae'r data yma'n cyfeirio at 512 o gleientiaid a gafodd eu cefnogi.

Rhyw

Roedd 502 yn arddel hunaniaeth fenywaidd

Roedd 7 yn arddel hunaniaeth wrywaidd

Roedd 2 yn arddel hunaniaeth trawsryweddol

Ethnigrwydd

Affricanaidd - 3

Du arall - 6

Tsieineaidd - 4

Indiaidd - 8

Tras gymysg – 27

Gwyn – Prydeinig - 153

Gwyn – Cymreig - 310

Oedran

| | |
|---------|-----|
| 16 – 21 | 32 |
| 21 – 30 | 125 |
| 31 – 40 | 117 |
| 41 – 50 | 96 |
| 51 – 60 | 65 |
| 61 – 70 | 52 |
| 71 – 80 | 22 |
| 81 – 90 | 3 |

Lleoliad Daearyddol
275 Pontypridd / Taf-elái
236 Cwm Cynon

AMCAN 4 – LLEIHAU'R BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Mae'r cynnydd tuag at y camau gweithredu yma wedi'u hamlinellu isod.

Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Ystyr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth cyfartalog dynion a menywod mewn sefydliad. Mae modd ei gyfrifo drwy rannu cyfradd gyflog fesul awr gyfartalog menywod gyda chyfradd gyflog fesul awr gyfartalog dynion.

Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng gweithwyr sy'n ddynion ac yn fenywod. Yn ogystal â hynny, mae gofyn iddo gyhoeddi'r data yma ar wahân ar gyfer gweithwyr ym maes Addysg (staff dysgu).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu'n gryf y dylai sefydliadau gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer staff llawn amser a staff rhan amser ar wahân. Mae unrhyw wahaniaeth o 5% neu fwy yn y bwlch cyflog yn cael ei ystyried yn wahaniaeth sylweddol, a bydd gofyn am ddadansoddi'r gwahaniaeth yma ymhellach.

Nododd yr Archwiliad Cyflogau Cyfartal y gwahaniaethau canlynol:

2021

| | Cyfun | Llawn amser | Rhan amser |
|----------------------------|--------|-------------|------------|
| Pob un o'r gweithwyr | 10.45% | -12.21% | 7.03% |
| Ddim yn Ymwneud ag Addysgu | 11.37% | -10.23% | 3.69% |
| Addysgu | 5.04% | 3.87% | 11.77% |

Ystyr cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n ddynion a chymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n fenywod. Mae ffigur positif yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n ddynion. Mae ffigur negyddol yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n fenywod.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer mis Mawrth 2021.

Cam Gweithredu 1 – Cyflwyno'r broses adolygu cyflawniad ar gyfer staff ar bob gradd.

Mae proses adolygu cyflawniad newydd y Cyngor ar gyfer staff yn cael ei chyflwyno'n gynyddrannol i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith a'i deall yn effeithiol. Mae'r broses wedi'i chyflwyno ar gyfer swyddi Prif Swyddogion ac ar gyfer staff ar Raddau 11 i 15. Mae gwreiddio'r broses adolygu cyflawniad newydd a chanolbwyntio ar gydymffurfiaeth wedi bod yn ffocws eleni ac yn anffodus mae hyn wedi gohirio'r broses o'i chyflwyno ymhellach i'r holl staff. Fodd bynnag, mae meysydd gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio'r prosesau adolygu cyflawniad blaenorol gyda'u staff sydd ddim ar y graddau a nodwyd uchod, ond does dim system monitro canolog yn cael ei gynnal ar gyfer hyn.

Byddwn ni'n parhau i gyflwyno'r adolygiadau cyflawniad diwygiedig ledled y Cyngor, gan roi sylw arbennig i sicrhau bod adolygiad cyflawniad yn cael ei gynnal gyda staff sydd heb fynediad at TG ar gyfer gwaith a heb gyfeiriad e-bost y Cyngor.

Cam Gweithredu 2 – Gwella'r gwaith o fonitro'r broses adolygu cyflawniad.

Yn rhan o'r broses adolygu cyflawniad newydd rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth, y dadansoddiad o anghenion hyfforddi ac rydyn ni'n adolygu'r broses sy'n cynnwys cael adborth gan reolwyr a staff. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu'r broses fonitro yn ystod y broses o gyflwyno'r broses adolygu cyflawniad ymhellach.

Cam Gweithredu 3 – Deall yn well a oes rhwystrau yn bodoli o ran menywod yn symud ymlaen i swyddi â mwy o gyfrifoldeb/â chyflog uwch.

Yn dilyn adborth gan ein staff sy'n fenywod, rydyn ni'n archwilio sut mae modd i ni annog rhagor o fenywod i wneud cais am swyddi uwch. Rydyn ni'n datblygu Rhaglen Arweinwyr sy'n Fenywod sydd â'r nod o ddileu rhwystrau o ran dilyniant. Nod y rhaglen yw rhoi llwyfan i fenywod ym mhob rhan o'r Cyngor, waeth beth fo'u rôl neu radd eu swydd, i gofleidio'r sgiliau unigryw yma, gan eu hysbrydoli a'u grymuso i dyfu a datblygu er mwyn torri drwy'r 'nenfwd gwydr'. Bydd y rhaglen yn cael ei lansio yn 2021/22 a byddwn ni'n cynnal nifer o achlysuron a fydd yn edrych ar rwystrau, yn chwalo mythau cyffredin ac yn ceisio ysgogi trafodaeth ysbrydoledig ynghylch menywod yn datblygu ac yn dod â mewnwediadau newydd i'r bwrdd. Y nod cyffredinol yw creu newid o ran diwylliant trwy roi mentrau ar waith megis mentora, hyfforddi a sefydlu cyfleoedd rhwydweithio, er mwyn galluogi menywod i deimlo'n hyderus a theimlo bod modd iddyn nhw symud ymlaen i gam nesaf eu gyrfa o fewn y Cyngor.

Cam Gweithredu 4 – Deall mwy am yr hyn sy'n atal menywod rhag dychwelyd i'r gweithle ar ôl cael babi.

Cafodd astudiaeth ymchwil ei gynnal a roddodd well dealltwriaeth ynglyn â'r rhwystrau o ran cadw staff ar ôl cyfnod mamolaeth. Roedd yr astudiaeth yn archwilio'r rhwystrau cymdeithasol a sefydliadol sy'n cyfrannu at y mater. Roedd argymhellion yr astudiaeth yn cynnwys:

- Ymgymryd ag ymchwil sefydliadol pellach yn enwedig gyda menywod sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth
- Cynyddu ymwybyddiaeth a chymorth i fenywod sy'n mynd ar gyfnod mamolaeth
- Adolygu a gwella prosesau monitro
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cyfweiliadau ymadael.

Cam Gweithredu 5 – Cefnogi addewid 'Gweithio Blaengar' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a gweithredu ei argymhellion.

Oherwydd nifer o ffactorau sy'n effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i gynnal y gwaith yma, mae'n debygol y bydd y gwaith yma'n cael ei drosglwyddo i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf yn 2023.

AMCAN 5 – CREU GWEITHLU CYNHWYSOL

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arny'n nhw. Mae'r cynnydd tuag at y camau gweithredu yma wedi'u hamlinellu isod.

Cam Gweithredu 1 – Datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol.

Yn anffodus dydy'r gwaith yn y maes yma ddim wedi dechrau eto gan fod blaenoriaethau wedi newid yn sgil y pandemig ac ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys (Black Lives Matter). Rydyn ni'n gobeithio dechrau ar y gwaith yma yn 2021/22. Mae'n amlwg serch hyn y bydd yn rhaid i unrhyw waith bellach ystyried aflonyddu rhywiol yn yr amgylchedd digidol gan fod llawer o'n staff bellach yn gweithio gartref yn rheolaidd.

Cam Gweithredu 2 – Adolygu ein holl waith sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a datblygu cynlluniau blynyddol sy'n darparu addysg, hyfforddiant ac ymyriadau.

Rydyn ni wedi cynnal sawl adolygiad o weithgareddau iechyd meddwl ac mae'r rhain yn parhau, fodd bynnag, mae'r pandemig wedi golygu bod yn rhaid addasu'r cynlluniau hyn er mwyn cefnogi'r gweithlu drwy gydol y pandemig.

Rydyn ni wedi ymgynghori â'r Uwch Garfan Arwain, yr Uwch Garfanau Rheoli, undebau llafur, rheolwyr a staff ledled y sefydliad ar ystod o faterion megis yr angen am hyfforddiant iechyd meddwl. Rydyn ni wedi cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau mewn addysg, hyfforddiant ac ymyriadau ar gyfer llesiant staff gan gynnwys iechyd meddwl.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl gyda chyllid cyfatebol gan y Cyngor a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru. Rydyn ni'n parhau i ddatblygu hyn bob blwyddyn.
- Mynychodd dros 600 o reolwyr sesiwn hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.
- Cafodd 2 grŵp peilot ar gyfer hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i-act i staff eu cynnal, gyda 30 o staff yn mynychu.
- Cafodd y gyfres 'Y Pandemig a Thu Hwnt' ei datblygu a'i chyflwyno dros 5 modiwl gan edrych ar effaith iechyd meddwl a diogelwch seicolegol ar unigolion a'r garfan. Mynychodd dros 400 o staff y sesiynau hyn.
- Cafodd meddalwedd llesiant staff cyfrinachol o'r enw Cari ei gyflwyno, sy'n rhoi sgôr llesiant cyffredinol i staff a'r sefydliad. Mae modd i staff gael mynediad at gymorth ac ymyriadau trwy eu cyfrif Cari.
- Cafodd llinell ffôn llesiant staff ei sefydlu i gefnogi staff trwy gydol y pandemig, gan roi mynediad i staff i'r canlynol:
 - profion ar gyfer gweithiwr allweddol
 - hunanatgyfeirio ar gyfer asesiadau llesiant
 - hunanatgyfeirio ar gyfer ffisiotherapi
 - clust i wrando
- Cafodd asesiadau llesiant eu cyflwyno mewn Iechyd Galwedigaethol i asesu angen unigolyn, yna'u hatgyfeirio at y cymorth mwyaf priodol.
- Cyflwynon ni wasanaeth cwnsela ysgolion pwrpasol i bob athro.
- Cafodd 600 o oriau ychwanegol eu darparu ar gyfer cwnsela.

Cam Gweithredu 3 – Dod o hyd i gyfres o hyfforddiant i reolwyr ar bynciau cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu'r hyfforddiant yna.

Dechreuodd y gwaith ar y prosiect yma eleni ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2021/22. Mae nifer o gyrsiau e-ddysgu addas wedi'u nodi a'u profi ac mae

trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Garfan Datblygu Pobl ynglyn â'u cyflwyno ar draws y Cyngor. Bydd y llwyfan dysgu mewnol 'RCT Source' yn cefnogi'r deunydd hyfforddi ac mae adran Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i datblygu i gefnogi dysgu staff gyda gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol.

Cam Gweithredu 4 - Bod yn sefydliad sy'n dod yn fwy hyderus o ran anabledd.

Fe wnaethon ni barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Cynllun ['Hyderus o ran Anabledd'](#) er mwyn bod y Cyngor fel cyflogwr yn gwneud y mwyaf o'r doniau mae modd i bobl anabl eu cynnig. Mae enghreifftiau o sut rydyn ni'n gwneud hyn yn cynnwys:

- Darparu cymorth i gydweithwyr dyslecsig a niwroamrywiol drwy feddalwedd 'Read&Write'. Mae swyddogion allweddol wedi derbyn hyfforddiant ar y feddalwedd yma er mwyn rhoi cyngor i aelodau eraill o staff ar sut i ddefnyddio'r offer.
- Adolygu polisi a chanllawiau hygyrchedd allweddol fel y canllaw 'See it Right'. Ers y newid i weithio gartref yn ystod y pandemig, mae cyfathrebu ar-lein ac e-gyfathrebu wedi dod yn fwyfwy cyffredin. Mae'r canllaw bellach yn cynnwys gwybodaeth am gyferbyniad, defnydd lliw, ffont a maint testun, yn ogystal ag awgrymiadau a nodweddion hygyrchedd sydd wedi'u cynnwys mewn adnoddau Microsoft fel Word a Teams.
- Ethol Uwch Hyrwyddwr Amrywiaeth dros Anabledd. Mae'r Uwch Hyrwyddwr yn gyswllt uniongyrchol i'n Rhwydwaith Staff Anabledd a Chynhalwyr gysylltu â'n Uwch Garfan Arwain er mwyn rhannu blaenoriaethau a phryderon. Mae'r gynrychiolaeth a'r gefnogaeth yma gan yr Uwch Garfan Arwain yn hanfodol ar gyfer ymwybyddiaeth a gwelliant o ran hygyrchedd.
- Codi ymwybyddiaeth o anabledd trwy gyfathrebu mewnol â staff.
- Gweithio gyda Business Disability Forum (BDF) i ddod yn sefydliad Disability Smart. Mae'r meini prawf y mae angen eu bodloni yn unol â'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, felly bydd yn datblygu'r Cyngor yn y ddau faes.
- Darparu'r hyfforddiant a'r weminarau perthnasol diweddaraf yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o anabledd i staff Adnoddau Dynol.
- Cynnig i feysydd gwasanaeth y Cyngor ddod yn Ymwybodol o Awtistiaeth.

Cam Gweithredu 5 – Byddwn ni'n cynnal ymarfer monitro cydraddoldeb yn y gweithle.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad yma, mae pecyn cymorth monitro cydraddoldeb wedi'i ddatblygu sy'n tynnu sylw at y cwestiynau monitro cydraddoldeb arfer gorau y dylai staff eu cwblhau. Yn fewnol, mae data monitro cydraddoldeb yn

hanfodol i archwilio cynnydd y Cyngor o ran ei ddyletswyddau cyfreithiol a'i amcanion cydraddoldeb. Mae'n ein helpu i nodi bylchau a thueddiadau ac o ganlyniad mae modd i ni ddatblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hynny.

Mae'r Cyngor yn rhoi system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd ar waith, yn anffodus oherwydd nifer o ffactorau mae'r dyddiad gweithredu wedi'i symud i fis Tachwedd 2021. Mae hwn yn brosiect sylweddol sy'n cwmpasu holl ddata'r gweithlu. Bydd y meysydd monitro arferion gorau cydraddoldeb sydd wedi'u hamlinellu yn y pecyn cymorth yn cael eu hychwanegu at y system yma. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni gasglu data ar nodweddion megis hunaniaethau anneuaidd. Mae hyn yn rhywbeth nad ydyn ni wedi bod yn y sefyllfa i'w wneud o'r blaen oherwydd cyfyngiadau datblygu yn y system bresennol. Pan fydd y system newydd wedi'i weithredu byddwn ni'n ymdrechu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am staff.

Cam Gweithredu 6 - Efelychu arfer da presennol wrth ymdrin â'r holl nodweddion gwarchoddedig.

Y nododd y Cyngor nifer o ddiwrnodau arwyddocaol naill ai drwy godi ymwybyddiaeth gydag erthyglau a blogiau ar ei fewnrwyd fewnol a gyda rhwydweithiau staff neu drwy gynnal achlysuron codi ymwybyddiaeth. Cafodd erthyglau eu hysgrifennu am y canlynol - maen nhw'n ymddangos yn nhrefn dyddiad:

- Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Datganiad yn dilyn marwolaeth George Floyd
- Diwrnod y Lluoedd wrth Gefn
- Pride Cymru
- Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd
- Diwrnod Dathlu Deurywioldeb
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Dyslecsia
- Wythnos Ymwybyddiaeth Colli Babanod

- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Diwrnod Menopos y Byd
- Mis Iechyd Meddwl Dynion
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Bobl Traws a Diwrnod Coffa Pobl Traws
- Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl ag Anableddau
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol
- Diwrnod Amser i Siarad
- Diwrnod Dim Gwahaniaethu
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Diwrnod Rhyngwladol dros gael gwared ar Wahaniaethu ar sail Hil

Yn ogystal â'r uchod, cafodd nifer o achlysuron eu cynnal ar draws y Cyngor i godi ymwybyddiaeth am amrywiaeth a chynhwysiant, a'i hyrwyddo.

Mis Iechyd Meddwl Dynion

Ar gyfer Mis Iechyd Meddwl Dynion roedden ni'n teimlo ei bod yn bwysig i staff wybod eu bod nhw'n gweithio mewn amgylchedd diogel a chefnogol, a gofynnwn ni i staff helpu i dorri'r stigma. Gwnaethon ni hyn trwy gynhyrchu 3 fideo byr gan aelodau gwrywaidd o staff, gan gynnwys un o'n Uwch Reolwyr, yn siarad am eu profiadau eu hunain o iechyd meddwl a pham ei bod mor bwysig ceisio cymorth neu siarad amdano. Roedd hon yn ymgyrch hynod bwerus ac rydyn ni hefyd wedi rhannu'r fideos yma yn ein cylchlythyr a'r fewnwyd er mwyn i'r holl staff eu gweld. Dyma [stori Paul](#)

Diwrnod Amser i Siarad

Roedd Diwrnod Amser i Siarad ym mis Chwefror yn ganolbwynt i staff ledled y Cyngor gael sgysiau am iechyd meddwl heb gael eu barnu. Ar gyfer diwrnod 'Amser i Siarad' eleni fe wnaethon ni annog staff i ddod â'r sgwrs i gyfarfodydd carfan arferol neu i gynnal sesiwn sgwrsio ar Microsoft Teams, tra bod cynifer ohonon ni'n gweithio gartref yn sgil y pandemig. Fe wnaethon ni rannu adnoddau i helpu staff, megis cefndir sgrin ddigidol i'w defnyddio mewn cyfarfodydd ar-lein, posteri a baneri, a rhifau ffôn i'w ffonio os oes angen cymorth penodol neu gymorth pellach arnoch chi.

Cynghorau Balch

Mae RhCT yn arwain 'Cynghorau Balch'; rhwydwaith o awdurdodau lleol yn Ne Cymru i hyrwyddo a chyflawni gweithle a chymuned gynhwysol i holl bobl LHDT+.

Eleni fe wnaethon ni gefnogi achlysur rhithwir ar gyfer Pride Cymru, sef dadl banel a gafodd ei wyllo gan gannoedd o bobl ledled y DU.

Fe wnaethon ni greu calendr digidol o achlysuron ar gyfer Mis Hanes LHDT+ i dynnu sylw at yr holl achlysuron a gweithgareddau oedd ar gael yn ystod y mis ac fe wnaethon ni hefyd drefnu achlysuron ac adnoddau ein hunain. Roedd hyn yn cynnwys darlith ar Faterion Byd-eang LHDT+ gan Goleg y Cymoedd, Gweithdy gan yr Awdur Norena Shopland, gweithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cwm Cynon, ac achlysur ar-lein a gynhaliwyd gan Rwydweithiau Staff Cyngor RhCT a Chyngor Caerdydd.

Cydraddoldeb Hiliol

Dydy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ddim yn cynnwys amcan penodol ar Gydraddoldeb Hiliol. Ers i George Floyd gael ei ladd a'r ymgyrch Black Lives Matter a ddilynodd, fe wnaethon ni gydnabod bod angen i ni ganolbwyntio ar Gydraddoldeb Hiliol o fewn y Cyngor. I gefnogi'r gwaith yma rydyn ni wedi penodi Swyddog Graddedig i weithio i ddatblygu hyn. Roedd penodi'r swydd yma'n weithred gadarnhaol. Rydyn ni wedi sefydlu Rhwydwaith Staff 'Spotlight' sy'n rhoi'r profiad byw i ni o sut beth yw bod yn aelod o staff Du yn y gweithle a'r gymuned. Mae aelodau 'Spotlight' wedi nodi nifer o feysydd yn y gweithle y mae angen i ni ganolbwyntio arny'n nhw e.e. polisi.

Mae cydweithwyr addysg hefyd wedi sefydlu Gweithgor Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, ac wedi comisiynu prosiect ymchwil yn edrych ar brofiad disgyblion Du yn ein hysgolion uwchradd.

Ym mis Mawrth llofnodon ni addewid Dim Hiliaeth Cymru a gafodd ei lansio ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig dros gael gwared ar Wahaniaethu ar sail Hil. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i sefyll yn erbyn hiliaeth.

Diwrnod Coffau'r Holocaust

Ar gyfer Diwrnod Coffau'r Holocaust 2021, yn sgil y cyfyngiadau COVID-19, gofynnwn ni i'r cyhoedd a staff y Cyngor dreulio peth amser ar y diwrnod, yn niogelwch eu cartrefi a'u gweithleoedd eu hunain, yn adlewyrchu ar echylderau'r amser gwaethaf yn hanes y byd pan laddwyd miliynau o bobl yn greulon gan y Natsïaidd, a'r hil-laddiadau a ddilynodd.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Fe wnaethon ni gynnal achlysur rhithwir ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar thema 'Dewis Herio'. Roedd yr achlysur yn trafod ystrydebau, gwahaniaethu a phrofiadau menywod yn y gwaith. Ein siaradwr gwadd oedd [Georgina Gilbert](#), sy'n ddiffoddwr tân gyda dros 20 mlynedd o brofiad, yn gyd-sylfaenydd antur [Antarctic Fire Angels](#) ac yn siaradwr sy'n ysbrydoli eraill drwy rwydwaith [Ordinary Extraordinary](#). Rhannodd ei hanes hi a thrafod chwalu rhwystrau o ran anghydraddoldeb ar sail rhyw.

Rhwydweithiau Staff

Mae ein rhwydweithiau staff wedi parhau i dyfu a datblygu ac fe chwaraeon nhw ran allweddol wrth ddarparu cymorth cymheiriaid yn ystod y pandemig. Cafodd cyfarfodydd rhwydwaith eu cynnal ar-lein ac fe anogodd hyn mwy o bobl i gymryd rhan gyda chyfarfodydd mwy rheolaidd. Mae ein holl rwydweithiau, Cynghreiriaid, Anabled a Chynhalwyr a Perthyn, ein rhwydwaith staff LHDTQ+ yn helpu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau penodol i bob aelod o staff er mwyn helpu i greu diwylliant gwell yn y gweithle.

Ar ddiwedd 2020 fe wnaethon ni hefyd lansio 'Spotlight', ein rhwydwaith staff ar gyfer aelodau staff Du, Asiaidd a Lleihafriod Ethnig. Mae'r Cyngor yn cyflogi niferoedd bach o'r grŵp yma. Mae'n hanfodol felly ein bod ni'n deall eu profiad nhw o fod yn lleiafrif yn y gweithle.

Cynhwysiant LHDTQ+

Mae'r Cyngor yn parhau i gael ei gydnabod yn gyflogwr cynhwysol ar restr [100 Cyflogwr Gorau Stonewall](#) 2020, sy'n dangos ein hymrwymiad i gynhwysiant LHDTQ+. Oherwydd y pandemig doedd dim modd gwneud cais yn 2021 ond rydyn ni'n ymdrechu i barhau â'n gwaith da o ran creu gweithle cynhwysol ar gyfer ein holl staff LHDTQ+ a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn 2019 roedd modd i ni ymgynghori â'r cyhoedd yn Rhondda Pride, lle nodon ni rhai bylchau o ran cymorth i ysgolion. Er bod y pandemig a'i effaith ar ysgolion wedi bod yn her, rydyn ni wedi gallu parhau i gynnig cymorth i ysgolion i sicrhau bod ein disgyblion LHDT+ yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n fwy. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg i greu adnoddau penodol ar faterion LHDT+ er mwyn addysgu staff addysgu'n well i deimlo'n hyderus wrth gefnogi ac addysgu disgyblion ar y pynciau penodol hyn.

Yn rhan o'n haelodaeth fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall, rydyn ni hefyd wedi gallu cynnig cyrsiau hyfforddi am ddim i'n hysgolion mewn perthynas â chefnogi disgyblion LHDTQ+ ag iechyd meddwl a heriau a phroblemau penodol eraill maen nhw o bosib yn eu hwynebu.

Mae gweithgor Addysg LHDTQ+ wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr adnoddau a chyfathrebu rhwng gwahanol wasanaethau ar draws y Cyngor yn fwy effeithiol o ran cefnogi pobl ifainc a phlant sy'n defnyddio gwasanaethau neu'n mynd i unrhyw un o'n hysgolion.

Rydyn ni wedi canolbwyntio ar gynhwysiant LHDTQ+ yn RhCT trwy godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymgyrchoedd a diwrnodau penodol sy'n codi ymwybyddiaeth a derbyniad o'r gymuned LHDTQ+ yn benodol.

Rydyn ni hefyd wedi cynnal achlysuron i godi ymwybyddiaeth, er enghraifft fe drefnon ni achlysuron penodol trwy gydol Mis Hanes LHDT+, rhai ar gyfer staff mewnol yn unig ac eraill yn agored i'r gymuned.

Rydyn ni wedi ymgynghori â'n rhwydwaith staff LHDTQ+ ac wedi penderfynu codi'r Faner Cynnydd ar ddiwrnodau penodol LHDTQ+ ar draws y Cyngor. Mae gyda ni Faner Cynnydd LHDTQ+ sy'n hedfan yn Llys Cadwyn, Pontypridd, am y rhan fwyaf o'r flwyddyn i ddangos pa mor bwysig rydyn ni'n teimlo am gynhwysiant LHDTQ+ yn y Cyngor. Byddwn ni hefyd yn codi'r faner traws, ddeurywiol a Chynnydd ar gyfer pob adeilad ar draws y Cyngor ar ddiwrnodau ac achlysuron penodol i sicrhau bod pobl yn gallu gweld ein bod ni'n cydnabod bod rhai grwpiau o fewn y gymuned LHDTQ+ yn wynebu mwy o wahaniaethu nag eraill.

Rydyn ni wedi cynnig gweminarau ac achlysuron am ddim i'n staff mewn perthynas â dathlu deurywioldeb a phynciau LHDTQ+ eraill ac adnoddau a rennir.

Cynnydd Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran llawer o'r amcanion cydraddoldeb. Rydyn ni'n nodi nad yw rhai wedi dechrau eto a bydd cynnydd yn y rhain yn cael eu monitro mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yma'n adlewyrchu cyfnod y cyfyngiadau symud cychwynnol yn sgil y pandemig COVID-19, ac felly roedd cynnydd ar rai prosiectau wedi'i ohirio o ganlyniad i'r ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig, mae llawer o waith cadarnhaol ac arloesol wedi'i wneud i wella hygyrchedd a chynhwysiant y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar draws y fwrdeistref.

Mae ein gwaith i gyflwyno'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ein helpu i ddangos sut rydyn ni'n cyfrannu at [Gymru sy'n fwy cyfartal](#) – 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau'. Ond mae hefyd yn ceisio cefnogi'r holl nodau Llesiant, gan gynnwys Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru lewyrchus.

7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi cynnal proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ers sawl blynedd. Mae'r broses yn cael ei chynnal o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Wrth ddatblygu polisiâu neu arferion newydd (gan gynnwys cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol);
- Wrth gynnig gwneud newidiadau i bolisiâu neu arferion cyfredol, ac wrth gynnal adolygiadau o wariant a gwerthuso rhaglenni;
- Os oes cynigion i atal neu roi'r gorau i bolisi neu arfer cyfredol;
- Os yw'r broses Cynllunio Busnes wedi nodi perthnasedd neu oblygiadau i gydraddoldeb.

Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd ac mae eisoes yn ystyried y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Gydraddoldeb 2010.

Dechreuodd y Cyngor broses sgrinio ym mis Ionawr 2012. Ei fwriad yw sicrhau bod y broses mor effeithiol â phosib a bod yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y cam sgrinio yn gallu cael ei defnyddio os oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Er hynny, mae'r Cyngor yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awtomatig yn ystod ei broses cynigion ynglŷn â newid.

Mae'r tabl isod yn cynnig cipolwg o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gafodd eu cynnal yn 2020/21.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Polisi/Gweithdrefn | Dyddiad |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------|
| Cynnig i Ymestyn ac Amrywio Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus y Fwrdeistref mewn perthynas â Mesurau Rheoli Cŵn | Mehefin 2020 |
| Mannau Mwy Diogel - Cadw Pellter Cymdeithasol yng Nghanol Trefi ac mewn Mannau Cyhoeddus yn ystod y Coronafeirws | Mehefin 2020 |
| Moderneiddio Gwasanaeth Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor ar gyfer Pobl Hŷn | Rhagfyr 2020 |
| Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif - Cynigion i Wella'r Ddarpariaeth Addysg yn Ysgol Llyn y Forwyn | Ionawr 2021 |
| Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif - Y Diweddaraf am Gynigion i Wella Darpariaeth Addysg yng Nghwm Cynon | Chwefror 2021 |
| Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2021-2022 | Chwefror 2021 |

Mae modd gweld manylion llawn y penderfyniadau sy'n rhan o adroddiadau'r Cabinet drwy'r ddolen ganlynol:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/Committees.aspx>

8. Data Monitro Cyflogaeth

Rhaid i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi'r data canlynol bob blwyddyn:

- nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl eu nodweddion gwarchoddedig;
- nifer y dynion a menywod sy'n cael eu cyflogi, yn ôl eu:
 - swydd;
 - graddfa (lle bo system graddio yn berthnasol);
 - cyflog;
 - math o gytundeb (gan gynnwys cytundebau parhaol a chyfnod penodol);
 - patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gweithio hyblyg eraill).
- nifer y bobl sydd wedi ceisio am swyddi â'r awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf;
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid eu swydd o fewn yr awdurdod, a nodi sawl oedd yn llwyddiannus yn eu cais a sawl oedd ddim;
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a sawl un sydd wedi llwyddo;
- nifer y gweithwyr a gyflawnodd hyfforddiant;
- nifer y gweithwyr a oedd wedi dilyn y weithdrefn gwynion, naill ai drwy wneud cwyn neu drwy fod yn destun y gwyn;
- nifer y gweithwyr sy'n destun i weithdrefnau disgyblu;
- nifer y gweithwyr sydd wedi gadael swydd o fewn yr awdurdod.

Rhaid i'r holl wybodaeth uchod gael ei chyflwyno yn ôl pob un o'r grwpiau gwarchoddedig gwahanol. Yr eithriad i'r gofyniad yma yw'r data ynglŷn â swydd, graddfa, cyflog, a math o gytundeb a phatrwm gwaith. Rhaid i'r rhain gael eu trefnu yn ôl menywod a dynion.

Gweler yr wybodaeth ynghlwm wrth Atodiad 1 - Data Monitro Cyflogaeth.

9. Caffael

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) sy'n rhan o'r wefan gaffael genedlaethol – www.Sell2Wales.co.uk.

Mae SQuID yn cynnwys cwestiynau craidd sy'n codi'n aml yn ystod y cam dethol. Mae'n cynnwys cronfa ddata o atebion y cyflenwyr at ddibenion eu hailddefnyddio a chynorthwyo prynwyr i greu holiadur drwy ddefnyddio dewin ar sail risg ar gyfer pob cynllun caffael. Y bwriad yw y bydd y pethau yma'n sicrhau'r canlynol:

- Gwell effeithlonrwydd i gyflenwyr a phrynwyr drwy ganiatáu i gwestiynau ac atebion safonol gael eu cadw i'w defnyddio yn y dyfodol, drwy gwtogi'r nifer o gwestiynau, a thrwy annog prynwyr i ofyn am wybodaeth os ydyn nhw'n gallu esbonio'n glir sut bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio yn unig;
- Safoni'r cam dethol yn well, a chaniatáu ar gyfer addasu cwestiynau i gwrdd â gofynion penodol y caffaeliad;
- Eglurder o ran y cam dethol a'r ffordd y bydd atebion yn cael eu gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflenwyr yn gallu penderfynu'n hawdd os ydyn nhw am wneud cynnig am gyfle penodol neu beidio, sut i wneud y gorau o'u cynnig a sut i'w cyflwyno mewn ffordd effeithiol;
- Cyfleoedd gwell i fusnesau bach a chanolig a busnesau lleol allu cystadlu'n deg o ganlyniad i osod cwestiwn sydd wedi'i ystyried yn ofalus. Bydd hyn yn cael gwared â rhai rhwystrau iddyn nhw.

Mae SQuID yn cynnwys adran ynglŷn â chyfleoedd cyfartal sy'n unol â chanllawiau caffael Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - <https://www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru>

10. Gwybodaeth Hygyrch

Mae'r cyngor yn darparu gwybodaeth mewn amryw o ffurfiau yn ôl angen. Mae meysydd gwasanaeth yn cofnodi ceisiadau am fformatau gwahanol gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu darparu.

Mae canllawiau ar hygyrchedd ar gael i weithwyr ar ryngrwyd fewnol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnig gwybodaeth ar y math o wybodaeth sydd ar gael, beth mae'r wybodaeth yn ei gwneud, ac yn cynnwys rhestr o gyflenwyr fel bod modd i weithwyr ddod o hyd i ffynhonnell y fformatau maen nhw wedi gofyn amdany'n nhw.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Canllawiau Print Eglur yr RNIB i wella dibynadwyedd ei ddogfennau.

11. Gwaith Pellach

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflwyno'r camau gweithredu a gafodd eu hamlinellu yng [Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2022](#), a'u cyflawni. Y flwyddyn nesaf bydd yn bwysig ein bod ni'n ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 a'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys (Black Lives Matter).

12. Manylion Cyswllt

Bydd Rhondda Cynon Taf yn croesawu sylwadau ynghylch unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, boed yn sylwadau ar y cynnwys neu'r hyn sydd ddim yn eglur ynglŷn â'r camau gweithredu a chynnydd o ran cydraddoldeb a chael gwared ar wahaniaethu.

Os oes gyda chi unrhyw sylwadau, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud, cysylltwch â:

Melanie Warburton
Rheolwr y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Tŷ Elái
Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf
Trewiliam
Tonypandy
CF40 1NY

Ffôn: 01443 444531

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Data Monitro Cyflogaeth

Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn cael ei chadw yn erbyn cofnodion pob gweithiwr sydd ar restr gyflogau'r Cyngor a'r system wybodaeth adnoddau dynol (Vision) Gofynnir am yr wybodaeth yn ystod y cam recriwtio ac mae'n cael ei chofnodi ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor yn annog ei holl weithwyr i ddarparu'r wybodaeth yma. Mae arolwg monitro cydraddoldeb yn cael ei gynnal bob 2 flynedd ar gyfer pob gweithiwr sydd heb wybodaeth ar ei ffeil er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth.

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r gofynion estynedig ar gyfer monitro gweithwyr yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cynhaliodd y Cyngor arolwg monitro cydraddoldeb o'i holl weithwyr yn 2011. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymdrin â phob un o'r nodweddion gwarchoddedig heblaw am feichiogrwydd. Doedden ni ddim wedi gofyn y cwestiwn yma oherwydd mae'n debygol y bydd gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth eisoes ar gofnodion y gweithwyr, a gall y cyfnod ar gyfer dychwelyd i'r gwaith olygu fod yr wybodaeth ddim yn gyfredol.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi gweithio gyda meysydd gwasanaeth eraill i ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol. Roedd hyn wedi arwain at greu holiadur a oedd yn cynnwys adrannau ynglŷn â defnyddio laith Arwyddion Prydain, gallu o ran y Gymraeg ac os oedd gyda gweithiwr ddyletswyddau gofal. Cafodd yr wybodaeth yma ei darparu ar ffurf ystadegau i'r meysydd gwasanaeth i'w helpu nhw i lywio'u gwaith a'u strategaethau.

Mae dadansoddiad ystadegol o'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y tablau canlynol. Mae'n ymdrin â holl weithwyr y Cyngor gan gynnwys athrawon a staff ysgolion.

Pobl sy'n cael eu cyflogi yn ôl Nodwedd Warchoddedig

Cafodd yr wybodaeth ganlynol ei darparu drwy ddefnyddio rhifau Yswiriant Gwladol pob gweithiwr. Mae hyn yn sicrhau y bydd manylion yn cael eu cynnwys unwaith yn unig lle mae gyda gweithiwr fwy nag un swydd. Mae hyn yn osgoi dyblu gwybodaeth. Mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion athrawon a staff ysgol. Bydd rhai cymariaethau yn cael eu gwneud â demograffig lleol Rhondda Cynon Taf am fod 80% o weithwyr yn byw yn ardal y Cyngor.

Rhywedd

Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth yn ôl rhywedd y gweithwyr:

| Rhywedd | Cyfanswm | % o'r Gweithlu |
|-----------------|--------------|----------------|
| Gwryw | 2781 | 25.5% |
| Benyw | 8123 | 74.5% |
| Cyfanswm | 10904 | 100% |

Mae'r tabl yn dangos yn glir bod y rhan fwyaf o weithlu'r Cyngor yn fenywod. Mae hyn wedi bod yn wir am sawl blwyddyn.

Oed

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl grŵp oedran:

| Grŵp Oedran | Cyfanswm | % o'r Gweithlu |
|-----------------|--------------|----------------|
| 16-24 | 614 | 5.6% |
| 25-34 | 1944 | 17.8% |
| 35-44 | 2580 | 23.7% |
| 45-54 | 3117 | 28.6% |
| 55-64 | 2261 | 20.7% |
| Dros 65 oed | 388 | 3.6% |
| Cyfanswm | 10904 | 100% |

Fel y llynedd, mae'r tabl yma'n nodi bod dros hanner gweithwyr y Cyngor rhwng 35 a 54 oed.

Anabledd

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl anabledd a dim anabledd:

| Adnabod | Cyfanswm | % o'r Gweithlu |
|---------------------------------|--------------|----------------|
| Anabl | 209 | 1.9% |
| Dim anabledd | 8800 | 80.7% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 21 | 0.2% |
| Dim gwybodaeth | 1874 | 17.2% |
| Cyfanswm | 10904 | 100% |

Mae gyda ni wybodaeth am 83% o weithwyr. Nododd canran isel o weithwyr eu bod nhw'n anabl, ond efallai fod hyn ddim yn rhoi'r gwir bortread o anabledd yn y gweithle. Er bod yr holiadur cydraddoldeb staff yn diffinio anabledd, mae'n bosib fydd rhai gweithwyr sydd ag anabledd 'diffiniedig' ddim yn dewis nodi bod gyda nhw anabledd.

Hunaniaeth Genedlaethol ac Ethnigrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu tras/ethnigrwydd:

| Ethnigrwydd | Nifer |
|---------------------------------|--------------|
| Asiaidd | 8 |
| Asiaidd - Prydeinig | 2 |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 4 |
| Asiaidd - Cernywaidd | 1 |
| Asiaidd – Indiaidd | 6 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 1 |
| Asiaidd – Arall | 4 |
| Du | 4 |
| Du – Affricanaidd | 7 |
| Du - Prydeinig | 4 |
| Du – Arall | 2 |
| Tsieineaidd | 4 |
| Cymysg – Arall | 14 |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 2 |
| Cymysg – Gwyn a Du'r Affrica | 2 |
| Cymysg – Gwyn a Du'r Caribî | 5 |
| Arall | 26 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 17 |
| Gwyn | 4789 |
| Gwyn - Prydeinig | 2086 |
| Gwyn - Cernywaidd | 1 |
| Gwyn – Seisnig | 37 |
| Gwyn - Gwyddelig | 10 |
| Gwyn - Arall | 21 |
| Gwyn – Albanaidd | 10 |
| Gwyn – Cymreig | 1749 |
| Anhysbys | 2088 |
| Cyfanswm | 10904 |

Mae hyn yn gynrychioladol o ddemograffig Rhondda Cynon Taf, lle mae 2%* o'i bobl yn nodi bod gyda nhw dras heblaw am: Gwyn - Prydeinig, Cymro/Cymraes, Sais/Saesnes neu Albanwr/Albanes.

*statscymru.llyw.cymru ar 30 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu hunaniaeth genedlaethol:

| Hunaniaeth Genedlaethol | Nifer y Gweithwyr |
|-------------------------|-------------------|
| Affricanaidd | 4 |
| Cefndir Asiaidd Arall | 2 |
| Cefndir Cymysg Arall | 2 |
| Cefndir Gwyn Arall | 10 |

| | |
|----------------------|--------------|
| Bangladeshaidd | 1 |
| Prydeinig | 1317 |
| Caribïaidd | 1 |
| Tsieineaidd | 4 |
| Saesneg | 188 |
| Ewropeaidd | 14 |
| Indiaidd | 4 |
| Gwyddelig | 16 |
| Arall | 5 |
| Albanaidd | 22 |
| Cymraeg | 4220 |
| Gwyn ac Asiaidd | 4 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1 |
| Anhysbys | 5089 |
| Cyfanswm | 10904 |

Mae gyda ni wybodaeth am 53% o weithwyr. Mae mwyafrif y gweithwyr yn nodi eu bod nhw'n 'Cymro/Cymraes', yna 'Prydeinig'.

Crefydd neu Gred

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu crefydd/cred:

| Crefydd | Cyfanswm |
|-------------------------------------------------------------|-----------------|
| Cristion | 2657 |
| Mwslim | 14 |
| Hindŵ | 7 |
| Bwdhydd | 12 |
| Sikh | 2 |
| Arall | 102 |
| % o'r gweithlu sy'n nodi eu bod nhw'n rhan o grefydd | 25.6% |
| Dim | 2857 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 338 |
| Dim gwybodaeth | 4915 |
| Cyfanswm | 10904 |

Mae gyda ni wybodaeth am 55% o weithwyr gyda'r mwyafrif o'r rhain yn nodi eu bod nhw'n Gristnogion.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu cyfeiriadedd rhywiol:

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm |
|-----------------------------|-----------------|
| Heterorywiol | 3854 |
| Dyn hoyw | 37 |

| | |
|--------------------------------------------------------------|--------------|
| Menyw hoyw/Lesbiaidd | 40 |
| Deurywiol | 25 |
| % o'r gweithlu sydd wedi nodi eu cyfeiriadedd rhywiol | 36.3% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 223 |
| Dim gwybodaeth | 6725 |
| Cyfanswm | 10904 |

Mae gyda ni wybodaeth am 38% o weithwyr. Mae hyn yr un peth ag yr adroddwyd y llynedd. Yn rhan o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, bydd gwaith yn parhau i gael ei gyflawni i annog rhagor o weithwyr i gwblhau'r categori yma ar ffurflenni monitro cydraddoldeb.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ar 31 Mawrth 2021 roedd 132 o weithwyr ar gyfnod mamolaeth. Yn ystod 2020/21, roedd 307 o weithwyr yn absennol ar gyfnod mamolaeth.

Ailbennu Rhywedd

Does dim gwybodaeth benodol wedi'i chyhoeddi oherwydd y posibilrwydd o enwi unigolion. Mae gan y Cyngor Bolisi Ailbennu Rhywedd, a gafodd ei ddatblygu rhai blynyddoedd yn ôl oherwydd bod gweithiwr wedi gofyn am gymorth. Ers hynny, mae'r polisi wedi'i ddefnyddio ac mae cymorth wedi'i ddarparu yn ôl anghenion gweithwyr.

Rheoliad 9 – Gwybodaeth Benodol am Rywedd

Mae Rheoliad 9 o'r Dyletswyddau Cydraddoldeb sy'n Benodol i Gymru yn mynnu bod yr wybodaeth benodol ganlynol yn cael ei darparu mewn perthynas â rhywedd:

Nifer o weithwyr sydd wedi'u cyflogi ar 31 Mawrth 2020 yn ôl y canlynol:

- Swydd
- Gradd
- Cyflog
- Math o gytundeb
- Patrwm gwaith.

Cafodd yr wybodaeth ei darparu ar sail y nifer o swyddi, fel bod y gweithwyr hynny sydd â mwy nag un swydd yn cael eu cynnwys yn ôl y swyddi sydd ganddyn nhw. Felly, mae'n bosib y bydd y niferoedd yn wahanol i'r rhai yn yr adran flaenorol.

Unwaith eto, mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion athrawon a staff sy'n gweithio mewn ysgolion.

Mae'r tablau isod yn dangos yr wybodaeth benodol sydd ei hangen:

Gweithwyr yn ôl eu Rhywedd a'u Swydd

Mae dros fil o wahanol deitlau swyddi yn bodoli yn y Cyngor. Felly, mae'r swyddi wedi eu trefnu yn ôl categorïau a geir yn y fframwaith cymwyseddau.

| Categori'r Swydd | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|-----------------------------------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Gweinyddwr | 917 | 264 | 1181 |
| Staff Ategol | 1512 | 497 | 2009 |
| Pennaeth Cynorthwyol | 38 | 32 | 70 |
| Gofal yn y Gymuned a Gofal Cymdeithasol | 1383 | 264 | 1647 |
| Dirprwy Bennaeth | 70 | 47 | 117 |
| Gwasanaethau Rheng Flaen a Gofal i Gwsmeriaid | 366 | 282 | 648 |
| Pennaeth | 83 | 38 | 121 |
| Rheolwr Ganol | 165 | 85 | 250 |
| Cymorth i Ysgolion | 1489 | 85 | 1574 |
| Gweithiwr Llaw Medrus | 32 | 123 | 155 |
| Rheolwr Materion Strategol | 31 | 40 | 71 |
| Goruchwyliwr | 168 | 210 | 378 |
| Athro/Athrawes | 1345 | 395 | 1740 |
| Technegol, Arbenigol a Phroffesiynol | 484 | 402 | 886 |
| Athro/Athrawes sydd heb Gymhwysu | 40 | 17 | 57 |
| Cyfanswm | 8123 | 2781 | 10904 |

Yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf, mae'r mwyafrif o fenywod yn gweithio mewn meysydd sy'n 'draddodiadol i fenywod', yn enwedig mewn lleoliadau Cymunedol a Gofal Cymdeithasol, Staff Ategol a Chymorth i Ysgolion. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n fwy trylwyr yn rhan o Amcan Cyflogau'r Rhywiau y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Graddfa

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r systemau graddio canlynol (diweddarwyd 31 Mawrth 2021):

- Prif Swyddogion (Pennaeth y Gwasanaeth ac uwch)
- Cyd-Gyngor Cenedlaethol
- Athrawon/Addysg

Mae'r tablau isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu rhyw a'u graddfa:

Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa - Prif Swyddogion

| Gradd | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|--------------------------------|-----------|-----------|-----------|
| Prif Weithredwr | 0 | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwr Cyfadran | 0 | 2 | 2 |
| Cyfarwyddwr Lefel 1 | 0 | 2 | 2 |
| Cyfarwyddwr Lefel 2 | 3 | 5 | 8 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1 | 1 | 2 | 3 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2 | 3 | 7 | 10 |
| Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1 | 12 | 8 | 20 |
| Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2 | 4 | 6 | 10 |
| Cyfanswm | 23 | 33 | 56 |

Does dim newid sylweddol wedi bod ers y flwyddyn ddiweddaf. Mae rhan fwyaf o swyddi'r Prif Swyddogion yn cael eu cyflawni gan ddynion. Mae'r menywod sy'n Brif Swyddogion yn is ar y raddfa yn bennaf.

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Graddfa - Cyd-Gyngor Cenedlaethol

| Gradd | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|-------|-------|-------|----------|
| GR1 | 252 | 65 | 317 |
| GR2 | 836 | 44 | 880 |
| GR3 | 480 | 141 | 621 |
| GR4 | 868 | 233 | 1101 |
| GR5 | 789 | 422 | 1211 |
| GR6 | 1151 | 334 | 1485 |
| GR7 | 561 | 158 | 719 |
| GR8 | 293 | 127 | 420 |
| GR9 | 272 | 146 | 418 |
| GR10 | 243 | 179 | 422 |
| GR11 | 320 | 130 | 450 |

| | | | |
|-----------------|-------------|-------------|-------------|
| GR12 | 153 | 66 | 219 |
| GR13 | 113 | 57 | 170 |
| GR14 | 13 | 12 | 25 |
| GR15 | 54 | 35 | 89 |
| Cyfanswm | 6398 | 2149 | 8547 |

Er bod 74.5% o weithlu y Cyngor yn fenywod, mae'r wybodaeth yn nodi mai menywod sy'n dominyddu'r raddfa gyflog is. Bydd hyn yn cael ei archwilio o dan Amcan Cyflog y Rhywiau y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa – Athrawon/Addysg

| Gradd | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|--------------------------------------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Seicolegwyr a Chynghorwyr Addysg | 89 | 28 | 117 |
| Grwpiau Arwain/Penaethiaid | 81 | 38 | 119 |
| Dirprwy Benaethiaid a Phenathiaid Cynorthwyol | 134 | 87 | 221 |
| Athrawon | 1357 | 402 | 1759 |
| Cyfanswm | 1661 | 555 | 2216 |

Mae'r ffigurau uchod yn dangos mai menywod yw'r mwyafrif yn y proffesiwn addysg (75%).

Mae'n anodd crynhoi graddau cyflog unigol staff ym maes Addysg. Ond, mae rhaniad eithaf cyfartal rhwng dynion/menywod ar hyd y pwyntiau cyflogaeth. Does dim anghysonderau amlwg o ran eu gallu i symud drwy'r graddfeydd. Mae'r graddfeydd a'r pwyntiau cyflog yn seiliedig ar raddfeydd cyflog cenedlaethol cytûn. Mae gofynion penodol ynghlwm wrth bob graddfa a'r ffordd y mae gweithwyr yn symud drwyddyn nhw.

Gweithwyr yn ôl Math o Gytundeb/Patrwm Gwaith

| Math o gontract | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|--------------------------------------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Amser Llawn, Parhaol | 2572 | 1879 | 4451 |
| Rhan Amser, Parhaol | 1582 | 231 | 1813 |
| Rhan Amser, Parhaol - Tymor yr ysgol yn unig | 2154 | 83 | 2237 |
| Parhaol - Tymor yr ysgol yn unig | 134 | 25 | 159 |
| Amser Llawn, Dros Dro | 373 | 213 | 586 |
| Rhan Amser, Dros Dro | 138 | 43 | 181 |
| Rhan Amser, Dros Dro - Tymor yr ysgol yn unig | 490 | 55 | 545 |
| Dros Dro - Tymor yr ysgol yn unig | 13 | 3 | 16 |

| | | | |
|-----------------|-------------|-------------|--------------|
| Achlysurol | 667 | 249 | 916 |
| Cyfanswm | 8123 | 2781 | 10904 |

Mae'r dadansoddiad o aelodau parhaol o staff sy'n fenywod/dynion yn debyg i'r gweithlu cyffredinol. Er bod 74.5% o'r gweithlu cyffredinol yn fenywod, mae canran uwch o'r menywod yn gweithio swyddi rhan amser neu yn ystod tymor yr ysgol o'i chymharu â dynion.

Ymgeiswyr ar gyfer Swyddi neu Ddyrchafiad

Cafodd 446 o swyddi gwag eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn 2020/21. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau monitro recriwtio o'r un cyfnod. Sylwch fod mwy o bobl yn cael eu penodi i swyddi na nifer y swyddi a gafodd eu hysbysebu. Mae hyn oherwydd nifer o ddeiliaid swyddi yn yr un swydd e.e. gweithwyr cymdeithasol.

Ymgeiswyr am Swyddi a Dyrchafiad yn ôl nodweddion gwarchoddedig

| | Ymgeiswyr | Ar y rhestr Fer | Wedi'u penodi |
|-----------------------------------|-----------|-----------------|---------------|
| Benyw | 4275 | 1345 | 336 |
| Gwryw | 2795 | 695 | 141 |
| Lleiafrif Ethnig | 504 | 105 | 17 |
| Anabl | 409 | 123 | 19 |
| Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol | 429 | 120 | 25 |

Mae'r nifer o unigolion a gafodd eu penodi ym mhob categori yn adlewyrchu cyfansoddiad cyffredinol y Cyngor.

Hyfforddiant

Mae'r broses monitro cydraddoldeb fel arfer yn cael ei chynnal yn ôl pwy sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnol yn unig. Mae'r broses hefyd wedi cael ei chynnal drwy ddefnyddio ffurflenni monitro cydraddoldeb sydd nawr yn monitro holl nodweddion gwarchoddedig. Ychwanegwyd cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth yn ystod 2014/15.

Mae systemau cynllunio'r gweithlu ac adolygu cyflawniad y Cyngor yn helpu i nodi anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygiad staff.

Yn ystod cyfweiliadau datblygiad personol, bydd rheolwyr yn trafod anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygu â gweithwyr. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r adolygiadau cyflawniad a chymwyseddau'r swydd. Mae canlyniadau'r rhain wedyn yn cael eu cynnwys mewn cynllun hyfforddiant adrannol neu ranbarthol.

Ar hyn o bryd, dydy'r Cyngor ddim yn monitro ceisiadau hyfforddiant sy'n cael eu gwrthod, gan fod y broses sy'n cael ei defnyddio i fonitro hyfforddiant ddim yn benthyg ei hun i'r math yma o fonitro. Serch hyn, bydd yn cael ei ystyried.

Oherwydd y pandemig adolygwyd y ddarpariaeth o hyfforddiant ffurfiol. Yn anffodus mae'n ymddangos na chynhaliwyd monitro cydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Disgyblu a Chwynion

Mae achosion disgyblu a chwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro drwy System Vision. Roedd 193 o achosion yn ymdrin â disgyblu, cwynion ac urddas yn y gwaith a chamau gweithredu disgyblu yn ymwneud ag absenoldebau oherwydd salwch yn 2020/21 Mae'r tablau isod yn dangos gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn ôl y canlynol:

Rhywedd

| | Cyfanswm | Disgyblu | Disgyblaeth yn ymwneud ag Absenoldeb Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|-----------------|------------|------------|---------------------------------------------|----------|--------------------|
| Gwryw | 100 | 62 | 31 | 0 | 7 |
| Benyw | 95 | 60 | 21 | 0 | 14 |
| Cyfanswm | 195 | 122 | 52 | 0 | 21 |

Fel y gwelir o'r tabl uchod, roedd mwy o wrywod dan sylw, fodd bynnag pan fyddwch chi'n rhannu hyn yn ganrannau, roedd 50.8% o achosion disgyblu yn ymwneud â gwrywod a 49.2% yn ymwneud â benywod.

Oed

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|-----------------|------------|------------|----------------------------|----------|--------------------|
| 16 – 24 | 15 | 7 | 6 | 0 | 2 |
| 25 – 34 | 31 | 20 | 7 | 0 | 4 |
| 35 – 44 | 50 | 33 | 11 | 0 | 6 |
| 45 – 54 | 50 | 29 | 14 | 0 | 7 |
| 55 – 64 | 42 | 29 | 11 | 0 | 2 |
| Dros 65 oed | 7 | 4 | 3 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 195 | 122 | 52 | 0 | 21 |

Anabled

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------------------------|----------------|---------------------------|
| Anabl | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Dim anabledd | 157 | 99 | 42 | 0 | 16 |
| Dim gwybodaeth | 36 | 21 | 10 | 0 | 5 |
| Cyfanswm | 195 | 122 | 52 | 0 | 21 |

Ethnigrwydd

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------------------------|----------------|---------------------------|
| Asiaidd | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Du | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tsieineaidd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymysg | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Gwyn | 145 | 96 | 37 | 0 | 13 |
| Arall | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Dim gwybodaeth | 46 | 24 | 15 | 0 | 7 |
| Cyfanswm | 195 | 122 | 52 | 0 | 21 |

Crefydd neu Gred

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---------------------------------|-----------------|-----------------|-----------------------------------|----------------|---------------------------|
| Dim Crefydd | 57 | 34 | 20 | 0 | 3 |
| Cristion | 41 | 28 | 8 | 0 | 5 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 10 | 9 | 0 | 0 | 1 |
| Dim gwybodaeth | 87 | 51 | 24 | 0 | 12 |
| Cyfanswm | 195 | 122 | 52 | 0 | 21 |

Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---------------------------------|-----------------|-----------------|-----------------------------------|----------------|---------------------------|
| Heterorywiol | 57 | 35 | 16 | 0 | 6 |
| Hoyw/Lesbiad | 4 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| Deurywiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 |
| Dim gwybodaeth | 124 | 77 | 33 | 0 | 14 |
| Cyfanswm | 193 | 122 | 52 | 0 | 21 |

Ailbennu Rhywedd a Beichiogrwydd a Mamolaeth

Roedd 2 o'r gweithwyr yn y categorïau yma'n destun i achosion disgyblu, salwch neu gwynion.

Gadael Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a gafodd ei chasglu o system Vision yn dangos bod 688 o weithwyr wedi gadael eu swyddi yn y Cyngor yn 2020/21, gan gynnwys 7 o achosion o swyddi'n cael eu dileu. Dylid nodi bod y gweithwyr yma yn gweithio mewn ysgol. Ysgolion, yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion, sy'n penderfynu ar ddiswyddo staff. Mae'r tablau isod yn dangos y niferoedd a adawodd yn 2020/21 a'u rhesymau dros adael:

Rhesymau dros adael yn ôl rhywedd

| Rheswm dros adael | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|--------------------------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Oedran Ymddeol | 55 | 16 | 71 |
| Marw yn ystod Gwasanaeth | 7 | 5 | 12 |
| Diswyddo | 3 | 4 | 7 |
| Ymddeoliad Cynnar (Athrawon) | 4 | 1 | 5 |
| Diwedd Cytundeb | 66 | 15 | 81 |
| Methu'r cyfnod prawf | 2 | 0 | 2 |
| Salwch | 9 | 9 | 18 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 2 | 2 |
| Cytundeb Cytûn | 64 | 13 | 77 |
| Dileu swydd | 7 | 0 | 7 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 19 | 13 | 32 |
| Gwirfoddol | 254 | 87 | 341 |
| Ymddeol Cynnar Gwirfoddol a Diswyddo | 18 | 7 | 25 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 6 | 2 | 8 |
| Cyfanswm | 514 | 174 | 688 |

Mae rhyw y bobl sy'n gadael cyflogaeth yn adlewyrchu rhyw cyffredinol y Cyngor.

Rheswm dros adael yn ôl oedran

| Rheswm dros adael | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | Dros 65 oed | Cyfanswm |
|-----------------------------------------|-----------|------------|------------|------------|------------|-------------|------------|
| Oedran Ymddeol | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | 45 | 71 |
| Marw yn ystod Gwasanaeth | 0 | 0 | 2 | 3 | 7 | 0 | 12 |
| Diswyddo | 0 | 3 | 1 | 2 | 1 | 0 | 7 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 |
| Diwedd Cytundeb | 12 | 38 | 21 | 7 | 2 | 1 | 81 |
| Methu'r cyfnod prawf | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Salwch | 0 | 0 | 1 | 3 | 11 | 3 | 18 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cytundeb cytûn | 0 | 3 | 6 | 16 | 29 | 23 | 77 |
| Dileu swydd | 0 | 0 | 2 | 2 | 3 | 0 | 7 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 0 | 6 | 15 | 9 | 2 | 0 | 32 |
| Gwirfoddol | 41 | 99 | 77 | 69 | 39 | 16 | 341 |
| Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a diswyddo | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 5 | 25 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 0 | 1 | 1 | 5 | 1 | 0 | 8 |
| Cyfanswm | 53 | 152 | 128 | 116 | 146 | 93 | 688 |

Rheswm dros adael yn ôl anabledd

| Rheswm dros adael | Cyfanswm |
|--------------------------|-----------|
| Oedran Ymddeol | 1 |
| Marw yn ystod Gwasanaeth | 1 |
| Diwedd Cytundeb | 1 |
| Salwch | 2 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 1 |
| Cytundeb cytûn | 4 |
| Gwirfoddol | 3 |
| Cyfanswm | 13 |

Rheswm dros adael yn ôl tras ethnig

| Rheswm | Gwyn | Lleiafrif Ethnig | Anhysbys | Cyfanswm |
|--------------------------------------------|------------|------------------|------------|------------|
| Oedran ymddeol | 67 | 0 | 4 | 71 |
| Marwolaeth | 12 | 0 | 0 | 12 |
| Diswyddo | 5 | 0 | 2 | 7 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 4 | 1 | 0 | 5 |
| Diwedd cytundeb | 63 | 2 | 16 | 81 |
| Methu'r cyfnod prawf | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Salwch | 18 | 0 | 0 | 18 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Cytundeb cytûn | 66 | 1 | 10 | 77 |
| Dileu swydd | 7 | 0 | 0 | 7 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 24 | 0 | 8 | 32 |
| Gwirfoddol | 253 | 8 | 80 | 341 |
| Ymddeoliad cynnar gwirfoddol a dileu swydd | 22 | 0 | 3 | 25 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 6 | 0 | 2 | 8 |
| Cyfanswm | 551 | 12 | 125 | 688 |

Rheswm dros adael yn ôl Crefydd neu Gred

| Rheswm | Bwdhydd | Cristion | Mwsli m | Dim Crefydd | Arall | Mae'n well gen i beidio â dweud | Anhysbys | Cyfanswm |
|------------------------------|---------|----------|---------|-------------|-------|---------------------------------|----------|-----------|
| Oedran Ymddeol | 0 | 27 | 0 | 11 | 2 | 2 | 29 | 71 |
| Marw yn ystod Gwasanaeth | 0 | 5 | 0 | 3 | 0 | 0 | 4 | 12 |
| Diswyddo | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 1 | 2 | 7 |
| Ymddeoliad Cynnar (Athrawon) | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 5 |
| Diwedd cytundeb | 0 | 26 | 1 | 21 | 1 | 4 | 28 | 81 |
| Methu'r cyfnod prawf | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Salwch | 0 | 5 | 0 | 3 | 0 | 1 | 9 | 18 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |

| | | | | | | | | |
|--------------------------------------------|----------|------------|----------|------------|----------|-----------|------------|------------|
| Cytundeb cytûn | 0 | 20 | 0 | 10 | 0 | 0 | 47 | 77 |
| Dileu swydd | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 3 | 7 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 0 | 11 | 0 | 8 | 0 | 2 | 11 | 32 |
| Gwirfoddol | 2 | 63 | 2 | 126 | 3 | 16 | 129 | 341 |
| Ymddeoliad cynnar gwirfoddol a dileu swydd | 0 | 13 | 0 | 2 | 1 | 3 | 6 | 25 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 | 3 | 8 |
| Cyfanswm | 2 | 182 | 3 | 193 | 7 | 29 | 272 | 688 |

Rheswm dros adael yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

| Rheswm | Hetero-rywiol | Hoyw/Lesbiaidd | Deurywiol | Mae'n well gen i beidio â dweud | Anhysbys | Cyfanswm |
|--------------------------------------------|---------------|----------------|-----------|---------------------------------|------------|------------|
| Oedran ymddeol | 36 | 0 | 0 | 1 | 34 | 71 |
| Marwolaeth | 7 | 0 | 0 | 0 | 5 | 12 |
| Diswyddo | 2 | 0 | 0 | 0 | 5 | 7 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 3 | 0 | 0 | 0 | 2 | 5 |
| Diwedd cytundeb | 10 | 1 | 0 | 0 | 70 | 81 |
| Methu'r cyfnod prawf | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Salwch | 7 | 0 | 0 | 0 | 11 | 18 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Cytundeb cytûn | 21 | 0 | 0 | 1 | 55 | 77 |
| Dileu swydd | 3 | | 0 | 0 | 4 | 7 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 12 | 0 | 0 | 0 | 20 | 32 |
| Gwirfoddol | 129 | 3 | 2 | 12 | 195 | 341 |
| Ymddeoliad cynnar gwirfoddol a dileu swydd | 17 | 0 | 0 | 2 | 6 | 25 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 3 | 0 | 0 | 0 | 5 | 8 |
| Cyfanswm | 251 | 5 | 2 | 16 | 414 | 688 |